

**ADOLYGIAD O CHWARAEON CYMRU
ADRODDIAD ANNIBYNNOL**

MEHEFIN 2017

Cynnwys**Tudalen**

1.	Crynodeb Gweithredol	4
2.	Cyflwyniad	6
	Themâu Allweddol	
3.	Polisi a Strategaeth	8
4.	Diben a Rôl	14
5.	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	21
6.	Mesur Perfformiad a Blaenoriaethau Buddsoddi	25
7.	Partneriaethau ac Ymgysylltu â Rhanddeilaid	31
8.	Ymddygiadau, Sgiliau, Arloesedd ac Arbenigedd	35
9.	Dysgu a Dealltwriaeth	39
10.	Casgliadau	41
11.	Cyfyngiadau'r Adolygiad	42
12.	Meysydd Ymchwil neu Ymchwilio Pellach	43

Atodiadau:

A	Tabl Argymhellion	46
B	Cylch Gorchwyl yr Adolygiad	50
C	Aelodau'r Panel	52
D	Rhestr o'r Cyfranwyr a'r Rheini a Gafodd eu Cyfweld	53
E	Dogfennau Cyfeirio Allweddol	54

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r Panel fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Bwrdd, y Prif Weithredwr a'r staff am eu hagwedd gadarnhaol a'u hamynedd drwy gydol y broses. Hoffem ddiolch hefyd i'r lluoedd o randdeiliaid a phartneriaid a roddodd dystiolaeth, gan wneud hynny mewn ffordd onest a diffuant er budd pennaf chwaraeon yng Nghymru.

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Aeth y Panel ati i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad hwn drwy droi at y llenyddiaeth berthnasol a thrwy gynnal cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda phartneriaid a rhanddeiliaid. Roedd y rheini a gymerodd ran yn y cyfweiliadau hefyd yn cynnwys aelodau Bwrdd Chwaraeon Cymru ac uwch-reolwyr. Cafodd y priif faterion a gododd o'r cyfweiliadau eu crynhoi mewn nodyn, a chafodd aelodau'r Panel a'r rheini a gymerodd ran yn y cyfweiliadau gyfle i ddarllen y nodyn hwnnw er mwyn iddynt gael ystyried a oedd yn deg ac yn gywir. Wrth fynd ati i ddehongli'r data, cafodd y nodiadau eu hystyried ochr yn ochr â'r sylwadau a wnaed gan y Panel ar ôl darllen y llenyddiaeth, a'r ymchwil ragarweiniol a wnaed ar gyfer yr adolygiad blaenorol a gynhaliwyd gan Gadeirydd Chwaraeon Cymru. Aed ati wedyn i ddadansoddi'r data er mwyn nodi materion cyffredin a oedd yn sail i ganfyddiadau ac argymhellion y Panel.

1.2 Y neges glir a chyson a roddodd y rhanddeiliaid i dîm yr adolygiad oedd bod Chwaraeon Cymru yn sefydliad sydd ar groesffordd o ran ei gyfeiriad strategol a'r rôl y mae'n ei chwarae o ran cyflawni'r nodau llesiant a pholisïau'r llywodraeth. Mae'n parhau'n eiriolwr cryf iawn dros chwaraeon ac mae, yn briodol ddigon, yn cael y clod am gryfhau'r ffordd y mae Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol yn cael eu llywodraethu a'u harwain. Mae'r partneriaid hefyd yn cydnabod ac yn canmol y cyfraniad y mae tîm elfit Chwaraeon Cymru wedi'i wneud i lwyddiant athletwyr o Gymru. Wedi dweud hynny, gan fod mwy a mwy o sylw'n cael ei roi i'r cyfraniad y gall chwaraeon ei wneud i flaenoriaethau polisi ehangach, a hynny mewn hinsawdd lle mae cyllidebau gwariant yn y sector cyhoeddus yn crebachu, mae gofyn i Chwaraeon Cymru arwain y gwaith o weddnewid y sector.

1.3 Rhoddwyd croeso i'r adolygiad hwn gan Chwaraeon Cymru, a oedd yn ei ystyried yn gyfle i bwysu a mesur ac i ystyried sut y gall barhau i chwarae'i ran wrth sicrhau manteision gwirioneddol i bobl a chymunedau ym mhob cwr o Gymru. Nid Chwaraeon Cymru yn unig sydd, ac a ddylai, fod yn gyfrifol am hynny. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ddweud yn glir wrth gyrff cyhoeddus fel Chwaraeon Cymru yr hyn a ddisgwylir iddynt eu wneud yn gyfnewid am y buddsoddiad y maent yn ei gael, a sut y bydd y cyfraniad a'r perfformiad hwnnw'n cael ei fesur. Mae lle i rhanddeiliaid a phartneriaid helpu hefyd drwy fynd ati, mewn ffordd gwrtais, i herio'r sefydliad pan fo angen, a thrwy ymwneud yn llawn ac yn ddiffuant ag ef pan ofynnir iddynt wneud hynny.

1.4 Mae canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwn yn ymdrin ag effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd Chwaraeon Cymru o ran cyflawni'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn dymuno'u gweld. Er bod y sefydliad yn cyflawni mewn modd effeithiol ar draws amrywiaeth o weithgareddau, mae angen eglurder am ei ddiben cyffredinol a'i rôl o ran sicrhau bod y boblogaeth yn gwneud mwy o weithgarwch corfforol. Mae sut y mae'n ymwneud â'r sector ac â sectorau eraill, yn enwedig lechyd ac Addysg, hefyd yn rhan allweddol o'r adroddiad hwn ac mae cyfle i wneud gwelliannau yn gyflym iawn er mwyn mynd i'r afael â'r materion hynny.

1.5 Mae parodrwydd a dymuniad diffuant ymhlith rhanddeiliaid a phartneriaid i ystyried Chwaraeon Cymru yn brif awdurdod ar chwaraeon yng Nghymru; corff sydd ag arbenigedd ac a all roi arweiniad er mwyn uno'r sector a dangos pa mor

ADOLYGIAD O CHWARAEON CYMRU – ADOLYGIAD ANNIBYNNOL

werthfawr yw chwaraeon i iechyd a ffyniant y genedl. Credwn y bydd yr adroddiad hwn yn mynd peth o'r ffordd at helpu Chwaraeon Cymru i gyflawni'r rôl honno.

2. CYFLWYNIAD

2.1 Sefydlwyd Chwaraeon Cymru drwy Siarter Frenhinol ar 4 Chwefror 1972, a'i amcanion oedd meithrin gwybodaeth am chwaraeon a gweithgareddau hamdden corfforol, a'r arfer o gymryd rhan ynddynt, ymhlith y cyhoedd yng Nghymru yn gyffredinol, a darparu cyfleusterau ar gyfer gwneud hynny.

2.2 Mae'r sefydliad yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cael cymorth grant blynyddol ac mae hefyd yn creu incwm ychwanegol drwy ei weithgareddau busnes craidd. Mae Chwaraeon Cymru yn gyfrifol hefyd am ddsbarthu arian y Loteri Genedlaethol i'r campau elít ac i gampau ar lawr gwlad yng Nghymru.

2.3 Mae Chwaraeon Cymru yn parhau'n ymrwymedig i weledigaeth Llywodraeth Cymru o greu cenedl sy'n fwy corfforol egniól ac sy'n cymryd mwy o ran mewn chwaraeon, fel yr amlinellir yn ei strategaethau Dringo'n Uwch a Creu Cymru Egniól, ac mae'n paratoi ei gynllun busnes blynyddol ar sail y llythyr cylch gwaith blynyddol a gaiff oddi wrth Lywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, mae'r sefydliad nid yn unig yn anelu at sicrhau bod mwy yn cymryd rhan mewn chwaraeon ar lawr gwlad ond hefyd at roi'r gefnogaeth y mae ei hangen ar athletwyr uchelgeisiol Cymru i gystadlu'n llwyddiannus ar lwyfan y byd.

2.4 Ym mis Chwefror 2017, gwahoddodd Llywodraeth Cymru Banel Annibynnol i edrych ar fwriad, diben a rôl Chwaraeon Cymru mewn perthynas â chreu cenedl fwy egniól, iach a llwyddiannus yng ngoleuni'r ffaith bod cyllidebau gwariant yn y sector cyhoeddus o dan bwysau cyffredinol.

2.5 Yn yr un modd ag ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, mae Chwaraeon Cymru yn cael llai o adnoddau ariannol ond mae gofyn iddo, ar yr un pryd, gyrraedd mwy o bobl yn ein cymunedau. Bydd angen i gyrff fel Chwaraeon Cymru rannu canlyniadau ac adnoddau a mynd ati i gynllunio ar y cyd er mwyn chwarae'u rhan nhw yn yr agenda llesiant ehangach er budd pobl Cymru. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r sector chwaraeon ac arian cyhoeddus, mae'r Gweinidogion yn awyddus i'r adolygiad hwn ystyried a yw Chwaraeon Cymru yn mynd ati mewn ffordd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl i gyflawni'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn dymuno'u gweld.

2.6 Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn cael eu hamlinellu yn y rhaglen lywodraethu, 'Symud Cymru Ymlaen'. Ymhlith yr amcanion ar gyfer chwaraeon y mae gwella lefelau gweithgarwch corfforol dinasyddion Cymru yn y grwpiau hynny lle mae lefelau gweithgarwch yn isel iawn ar hyn o bryd, cyfrannu at greu poblogaeth sy'n fwy iach yn gyffredinol, gwella canlyniadau o ran llesiant, a chreu ffyrdd i bawb fedru datblygu ym maes chwaraeon er mwyn cyrraedd lefel elít. Bydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn elfen bwysig o strategaeth iach ac Egniól Llywodraeth Cymru.

2.7 Wrth i'r Panel fynd ati i adolygu Chwaraeon Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn iddo adeiladu ar y gwaith a'r ymchwil ragarweiniol a wnaed eisoes yn ystod Adolygiad y Cadeirydd o Chwaraeon Cymru, a gynhaliwyd o dan arweiniad y cyn Gadeirydd, Dr Paul Thomas. Mae'r Panel hefyd wedi gofyn am gryn dipyn yn fwy o dystiolaeth oddi wrth amryfal bartneriaid sydd naill ai'n cefnogi gweledigaeth

Chwaraeon Cymru neu sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais o greu cenedl sy'n gorfforol egniol.

2.8 Bydd yr adolygiad yn cyflwyno'i adroddiad i Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a gofynnwyd iddo edrych yn benodol ar y materion isod:

- Gweledigaeth, dyheadau a bwriad strategol Chwaraeon Cymru ar hyn o bryd o ran cyflawni blaenoriaethau ac amcanion y Llywodraeth
- Cryfderau a gwendidau presennol Chwaraeon Cymru, a'r cyfleoedd i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion y Llywodraeth
- Sut y gall cyflawni'r amcanion hyn gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Y canlyniadau llesiant y gallai Chwaraeon Cymru gael yr effaith fwyaf arnynt
- Yr hyn y gellir ei ddysgu a'i ddirnad oddi wrth weledydd eraill ynglŷn â chreu cenedl fwy egniol, iach a llwyddiannus.
- Y meysydd y dylai Chwaraeon Cymru fod yn eu targedu neu lle y dylai fod yn dylanwadu ar fuddsoddiad er mwyn cael yr effaith fwyaf o ran cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
- Awydd a gallu Chwaraeon Cymru i weithredu mewn ffyrdd arloesol i gyflawni ei amcanion.

THEMÂU ALLWEDDOL

3. Polisi a Strategaeth

3.1 Mae'r Panel yn mynd ati yn yr adran hon o'r adroddiad i edrych ar weledigaeth, dyheadau a bwriad strategol Chwaraeon Cymru ar hyn o bryd o ran cyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth. Mae'n gwneud hynny drwy ystyried cynnwys y dogfennau cyfeirio allweddol a'r dystiolaeth a glywodd yn ystod y cyfweiliadau. Mae'r materion sydd wedi dod i'r amlwg wrth iddo gasglu tystiolaeth yn cael eu trafod o dan nifer o is-themâu cysylltiedig:

Polisi

3.2 Cafodd y ddogfen, '**Dringo'n Uwch: Strategaeth ar gyfer Chwaraeon a Hamdden Egnïol yng Nghymru**', ei chyhoeddi ddeuddeng mlynedd yn ôl yn 2005. Y strategaeth hon yw'r gyntaf i'w chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar chwaraeon, a hi hefyd yw'r unig un. Roedd y strategaeth yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer chwaraeon, yn disgrifio'u cyfraniad i'r agenda polisi ehangach ac, yn benodol, i iechyd y genedl. Roedd yn pennu targedau uchelgeisiol ar gyfer annog rhagor o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon ac ar gyfer llwyddo ar y lefel elfit. Fe'i dilynwyd gan '**Dringo'n Uwch: Y Camau Nesaf**' yn 2006; dogfen a oedd yn amlinellu sut y bwriedid buddsoddi'r swm ychwanegol o £7.8 miliwn a sicrhawyd gan '**Dringo'n Uwch**' ac a ddyrannwyd i'r gyllideb Chwaraeon dros gyfnod o ddwy flynedd yn 2007/08 a 2008/09. Yn ystod y tair blynedd ar ôl cyhoeddi '**Dringo'n Uwch**', cynyddodd y gyllideb Chwaraeon o £10.36 miliwn i £19.91 miliwn a chafodd ei thargedu at raglenni a gweithgareddau a fyddai'n helpu i gyrraedd y targedau yn y strategaeth. Y swm y mae Llywodraeth Cymru yn ei fuddsoddi yn Chwaraeon Cymru ar gyfer 2017-18 yw £22.52 miliwn.

3.3 Cafodd strategaeth '**Dringo'n Uwch**' ei ategu gan gynllun gweithredu ar weithgarwch corfforol, '**Creu Cymru Egnïol**', yn 2009. Nod y camau gweithredu yn y cynllun oedd annog, cynorthwyo a chefnogi pobl nad oeddent yn gwneud unrhyw weithgarwch corfforol i wneud hynny, ac annog, cynorthwyo a chefnogi pobl a oedd yn gwneud gweithgarwch corfforol i wneud mwy ohono ac i gael gwell profiad wrth ei wneud.

3.4 Yr unig ddatganiad polisi y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud am chwaraeon ers cyhoeddi '**Dringo'n Uwch**', yn 2005, oedd un am chwaraeon elfit. Gwnaed y datganiad hwnnw ar ôl adolygiad annibynnol yn 2008, a sbardunodd y gwaith o ddatblygu a chyhoeddi '**Strategaeth Chwaraeon Elitaidd**' gyntaf Chwaraeon Cymru yn 2010. Cafodd y ddogfen honno ei diweddarau yn 2015.

3.5 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, defnyddiwyd y '**Llythyr Cylch Gwaith**' blynyddol yn gyfrwng i bennu'r cyd-destun polisi a'r blaenoriaethau ar gyfer Chwaraeon Cymru a'i gyllideb. Ers nifer o flynyddoedd, dim ond dyraniad ar gyfer un flwyddyn ariannol y mae'r gyllideb wedi'i ddarparu.

3.6 Mae'r rheini a wŷr am fodolaeth '**Dringo'n Uwch**', a hefyd aelodau uwch-dîm rheoli Chwaraeon Cymru, yn cyfrif mai hon yw'r ddogfen bolisi a bennodd y weledigaeth a'r cyfeiriad hirdymor ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol yng Nghymru. Roedd eraill na wyddent am fodolaeth y strategaeth yn cyfrif

mai 'Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru', a luniwyd o dan arweiniad y sector, yw'r strategaeth chwaraeon ac mai'r dyheadau sydd ynddo, sef 'Pob Plentyn wedi Gwirioni ar Chwaraeon am Oes' a 'Cenedl o Bencampwyr' (a ategir gan ei strategaethau ar gyfer chwaraeon elít, chwaraeon cymunedol a'r gweithlu) yw'r brif ddogfen sy'n sbarduno gweithgareddau a blaenoriaethau buddsoddi Chwaraeon Cymru. Mae rhai, hyd yn oed, yn cyfrif mai'r Llythyr Cylch Gwaith blynyddol yw'r ddogfen sy'n pennu'r agenda strategol ar gyfer Chwaraeon Cymru.

3.7 Pa ddogfen bynnag yr bernid ei bod yn pennu'r cyfeiriad polisi strategol ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, roedd consensws bod y strategaeth yn ymwneud â chwaraeon a'i gyfraniad i gymdeithas, yr economi ac iechyd y genedl yn ogystal â 'chwaraeon er mwyn chwaraeon'. Fodd bynnag, er bod yr agenda'n glir, roedd diffyg eglurder o ran y cysylltiad rhwng rhannau gwahanol o Lywodraeth Cymru ac o ran sut yr oedd polisïau, canlyniadau, blaenoriaethau buddsoddi a dulliau o fesur yn cyd-fynd â'i gilydd yn strategol. Bernid bod hyn yn rhwystr o bwys a oedd yn atal partneriaid y tu allan i Lywodraeth Cymru rhag deall eu rolau a'u cyfrifoldebau a rhag bod yn atebol am eu cyfraniad nhw i'r agenda bolisi. Yr enghraifft allweddol yn hyn o beth oedd priod rolau Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran pwys oedd y sefydliad arweiniol ar gyfer gweithgarwch corfforol, ac o ran ymchwil a thystiolaeth pa un ohonynt a ddylai fod yn sail ar gyfer datblygu polisïau neu ymyriadau, blaenoriaethau buddsoddi ac ymgyrchoedd marchnata cymdeithasol neu ymgyrchoedd hyrwyddo.

3.8 Roedd argraff gyffredinol bod meddylfryd seilo yn Llywodraeth Cymru, h.y. bod rhannau gwahanol o Lywodraeth Cymru yn gweithio'n gwbl annibynnol ar ei gilydd wrth ddatblygu polisi a buddsoddi. O'r herwydd, roedd pobl yn credu bod yr effaith yn rhy bell oddi wrth Lywodraeth Cymru i Weinidogion roi blaenoriaeth i weithgarwch corfforol fel maes polisi ac i ymrwymo i drefniadau cyllido mwy hirdymor. Credai'r sector hefyd fod newidiadau i bortffolios y Gweinidogion ac i'r cyd-destun gwleidyddol yn Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn anodd iddo sicrhau fod ei waith yn cyd-fynd â'r agenda polisi strategol.

Casgliadau

3.9 Os yw Llywodraeth Cymru am wireddu'r ymrwymiad cyffredinol i greu Cymru iach ac egniol, dylai gynnig yr arweiniad a fydd yn galluogi partneriaid i gydweithio er mwyn sicrhau lefelau uwch o weithgarwch corfforol, ac a fydd hefyd yn rhoi eglurder iddynt am eu priod rolau a chyfrifoldebau ac am beth y maent yn atebol. Mae 'beth' wedi bod yn glir iawn i'r sector erioed; sicrhau lefelau uwch o weithgarwch corfforol er budd iechyd a llesiant pobl, ond yr elfennau sydd ar goll, yn ei farn ef, yw 'pwys', 'sut' a 'sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo'. Mae'r rhan fwyaf o'r partneriaid yn deall bod angen newid wrth i'r cyd-destun newid ond maent am weld cyfeiriad polisi'n cael ei bennu. Mae angen datganiad polisi, a hynny ar fyrder, er mwyn sicrhau eglurder ynghylch priod rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid polisi a chyflawni, ac am beth y maent yn atebol. Mae angen hefyd i Lywodraeth Cymru gytuno ar ganlyniadau, cyllidebau, dulliau o fesur a dangosyddion sy'n gyffredin i bawb fel y bo modd asesu'r effaith y mae adrannau unigol a'u partneriaid allanol yn ei chael, a hefyd asesu'r budd sy'n deillio o'u buddsoddiad. Dylid bod yn agored am gynnydd yn hyn o beth a dylid mynd ati o dro i dro i adolygu perfformiad adrannau a'u partneriaid allanol a chyhoeddi'r casgliadau.

Yr argymhellion

- i) Dylai Llywodraeth Cymru lunio datganiad polisi a strategaeth hirdymor ar gyfer gweithgarwch corfforol sy'n egluro priod rolau a chyfrifoldebau Gweinidogion, adrannau, asiantaethau, cyrff a noddir, ac eraill, o ran creu cenedl iach ac egnïol.
- ii) Dylai'r datganiad polisi/strategaeth nodi'n glir iawn y canlyniadau a'r cyllidebau cyffredin a'r dulliau cyffredin y dylid eu defnyddio i fesur perfformiad yr holl bartneriaid.
- iii) Dylid ei gwneud yn ofynnol i'r sectorau Chwaraeon ac lechyd gydweithio'n effeithiol ar fuddsoddiad, ymchwil, marchnata a hyrwyddo er mwyn cael effaith gadarnhaol a chynaliadwy ar lefelau gweithgarwch corfforol y boblogaeth gyfan.

Strategaeth

3.10 Mae llawer o'r rhanddeiliaid yn y sector yn cyfrif mai 'Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru' (2011) yw'r strategaeth ar gyfer chwaraeon a'i fod yn dangos mai bwriad clir Chwaraeon Cymru, ar y cyd â'r sector, yw gwireddu agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgarwch corfforol a llwyddo ar y lefelau uchaf ym maes chwaraeon. Mae'r ddogfen honno'n dweud yn glir iawn mai'r un weledigaeth sydd ganddi hi â'r un yn 'Dringo'n Uwch' ac yn 'Creu Cymru Egnïol' a thrwy lunio 'Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru' fod y sector wedi datblygu "...gweledigaeth gysylltiedig yn canolbwyntio'n llwyr ar rôl chwaraeon mewn cyflwyno'r agenda gweithgarwch corfforol ehangach". Mae'r strategaeth honno wedi'i rhannu'n eang a'i chyfleu'n glir a chrybwyllodd llawer o'r rhanddeiliaid ym maes chwaraeon mai hon yw'r strategaeth y maent yn cyfeirio ati.

3.11 Y weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru yw **uno cenedl sy'n caru'r campau lle mae pob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon am oes a Chymru'n genedl o bencampwyr**. Cefnogir y weledigaeth hon gan 5 prif flaenoriaeth – Blaengaredd mewn Chwaraeon; Sgiliau ar gyfer Bywyd mewn Chwaraeon; Cymunedau Chwaraeon; Rhagoriaeth mewn Chwaraeon; a Meithrin Gweithlu Medrus ac Angerddol. Cafodd ei chyhoeddi ar ôl y Strategaeth Hyfforddi a'r Strategaeth Chwaraeon Elitaidd yn 2010 (a ddiweddarwyd yn 2015) a chyn y Strategaeth Gymunedol a'r Strategaeth Tlodi Plant yn 2012. Roedd y strategaeth yn amlinellu sut yr oedd Chwaraeon Cymru yn mynd ati i newid ei ffordd o weithio er mwyn gwireddu'r weledigaeth drwy:

- Roi ei ddiwylliant o 'rhoi tipyn o her, rhoi tipyn o gefnogaeth' ar waith wrth weithio gyda'i bartneriaid;
- Gwneud mwy na'r gweithgarwch cyswllt traddodiadol gan greu perthynas a fydd yn helpu partneriaid i bennu 'uchelgeisiau afresymol';
- Gweithio'n rhagweithiol gyda'r campau hynny a all wneud y gwahaniaeth mwyaf; gan anelu at greu newid sylweddol a chynnig cyfleoedd i filoedd yn hytrach na channoedd o bobl, a sicrhau ei fod yn buddsoddi yn unol â'r nod hwnnw – gan wneud hynny ar sail tystiolaeth a chan anelu at sicrhau canlyniadau mawr – er mwyn sicrhau cymaint o effaith ag y bo modd.
- Bod Chwaraeon Cymru, a'r sector, yn gweithio mewn ffordd fwy arloesol, drwy roi mwy o bwyslais ar yr angen i weithio gyda'r sefydliadau hynny yn y

sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ehangach a all gyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol.

- Canolbwyntio ar alluogi newid sylweddol ym maint y gweithgarwch ar lefel gymunedol fel y bo pawb yn gallu cymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon yn lleol.
- Ar ôl iddo ymrwymo o'r newydd i gynyddu'r niferoedd sy'n gwirfoddoli, adeiladu ar y gwaith hwnnw drwy fynd i'r afael mewn ffordd ragweithiol â'r heriau o ran recriwtio, hyfforddi, defnyddio a chadw gwirfoddolwyr.

3.12 Roedd y ddogfen weledigaeth yn esbonio hefyd fod y sector chwaraeon ehangach wrthi'n adolygu ei ffordd o weithio hefyd; gan fabwysiadu ffordd o weithio lle y bydd mwy a mwy o ymrwymiad i sicrhau perfformiad da a chydabod pwysigrwydd cydweithio ag eraill. Dyma hanfod y diwylliant newydd hwnnw:

- Pennu 'uchelgeisiau afresymol'
- Datblygu strategaethau er mwyn gwireddu'r weledigaeth, gan wneud hynny ar sail dealltwriaeth o berfformiad
- Arweinyddiaeth wasgaredig, lle mae rolau a chyfrifoldebau clir yn cael eu pennu ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r weledigaeth, a lle mae pobl yn cael eu hannog i fod yn atebol am eu gwaith
- Darparu adborth o safon uchel i alluogi'r sector chwaraeon i wella'n barhaus
- Gweithio fel un.

3.13 Bwriad 'Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru' oedd ategu gweledigaeth a strategaeth y llywodraeth drwy roi ei gyfeiriad strategol a'i ffocws ei hun i'r sector chwaraeon, drwy amlinellu pam yr oedd angen mwy o gydweithio, a chydweithio gwell, a thrwy bennu blaenoriaethau cyffredin. Llwyddodd i ennyn cefnogaeth i'r dyheadau a fynegir ynddi (y 'sloganau') ac aeth Chwaraeon Cymru ati i drefnu ei fod, wrth fuddsoddi, yn cefnogi'r meysydd blaenoriaeth ac yn cyflawni'r strategaethau a gyhoeddwyd neu'r strategaethau arfaethedig. I'r rheini a oedd yn teimlo bod diffyg cyfeiriad strategol, roedd y ddogfen yn llenwi'r bwlch hwnnw. I eraill, megis yr awdurdodau lleol, roedd yn gyfraniad defnyddiol ac yn ddogfen y gellid cyfeirio ati er mwyn ategu eu strategaethau eu hunain ar gyfer chwaraeon a gwasanaethau hamdden. Wedi dweud hynny, nid dyna'r prif sbardun ar gyfer eu strategaeth hwy oherwydd ei bod hi'n cael ei datblygu mewn cyd-destun ehangach. Yr argraff gyffredinol oedd bod y weledigaeth yn ganllaw defnyddiol ar sut i weithredu ond roedd cwestiynau o hyd ynghylch a oedd yn gynaliadwy, pa mor realistig ydoedd ac a oedd gan y sector y capasiti i'w gwireddu.

3.14 Roedd rhai o'r rhanddeiliaid o'r farn nad oedd y weledigaeth (fel strategaeth) wedi llwyddo i gynrychioli'r sector cyfan yn briodol oherwydd:

- nad oedd yn cydnabod yr amgylchiadau a'r heriau unigryw a oedd yn wynebu maes Addysg Uwch a llywodraeth leol, nac ychwaith y cyfraniad unigryw y gallent ei wneud;
- nad oedd cysylltiadau clir rhyngddi a strategaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru a darnau allweddol o ddeddfwriaeth.

3.15 Roedd rhanddeiliaid eraill yn cydnabod bod y cyd-destun wedi newid yn sylweddol ers i'r weledigaeth a'r strategaethau ategol gael eu cyhoeddi ac

awgrymwyd mai'r prif gonglfeini ar gyfer gweithio mewn ffordd strategol oedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a chyhoeddiad Grŵp Cyngori Chwaraeon Cymru, 'Gweithredu Heddiw dros Yfory Egnïol'. Roedd rhai ohonynt hefyd yn ystyried bod dogfennau megis 'Setting Sport Up for Success' a 'Dyma Chwaraeon Cymru' yn ffordd o'u helpu i ddeall eu rôl.

Casgliadau

3.16 Yn ystod yr adolygiad hwn, cafodd y Panel wybod bod Chwaraeon Cymru, yn 2015, wedi dechrau ar y gwaith o ddatblygu strategaeth ehangach ei chwmpas ond y bu oedi yn hynny o beth am fod Cadeirydd newydd wedi'i benodi. Dywedwyd yn glir hefyd fod bwriad i lunio strategaeth ddiwygiedig, egwyddorion buddsoddi newydd a fframwaith perfformiad lle y byddai ffyrdd Chwaraeon Cymru o fesur yn cyd-fynd â chanllawiau'r Prif Swyddog Meddygol ar weithgarwch corfforol. Fodd bynnag, y farn oedd y byddai unrhyw waith pellach yn cael ei lywio gan ganlyniad yr adolygiad hwn a chan unrhyw ddatganiadau polisi a strategaethau a fyddai'n cael eu llunio gan Lywodraeth Cymru.

3.17 Yn ôl y dystiolaeth a ddaeth i law, 'does dim dwywaith bod angen i Chwaraeon Cymru arwain y gwaith o ddatblygu strategaeth gyffredinol newydd a fydd yn eiddo i'r sector ac yn cael ei chyflawni ganddi. Mae'n amlwg hefyd fod parodrwydd iddi wneud hynny, a chefnogaeth yn hynny o beth. Mae'n bwysig bod y weledigaeth yn y strategaeth yn un glir sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y Rhaglen Lywodraethu, diben a rôl Chwaraeon Cymru, ac amryfal rolau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid a phartneriaid. Dylai'r strategaeth newydd fod yn un 'hirdymor' sy'n ymdrin â chwaraeon cymunedol yn ogystal â chwaraeon elit ond dylai fod yn seiliedig ar ddatganiad polisi clir a diamwys gan Lywodraeth Cymru a fydd yn diffinio rôl chwaraeon yng nghyd-destun Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'i chyfraniad at y polisi ar weithgarwch corfforol. Rhaid i unrhyw strategaeth newydd ar gyfer chwaraeon fod yn seiliedig ar y cyfleoedd a'r heriau sydd i'w gweld mewn cymunedau ledled Cymru, a rhaid iddi hefyd gydnabod y rôl y mae'r holl bartneriaid yn ei chwarae wrth fynd ati i'w gwireddu, a'r cyfraniad y maent yn ei wneud yn hynny o beth. Dylai bennu llwybr clir sy'n dechrau gyda'r buddsoddi a'r ffocws ac sy'n symud yn ei flaen wedyn at y gweithredu ac yna at ganlyniadau y cytunir arnynt. Dylid bod yn gwbl agored wrth fesur y canlyniadau hynny, ac wrth adrodd arnynt, a dylid dangos bod cysylltiad uniongyrchol rhwng eu heffaith nhw a nodau ac amcanion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

3.18 Mae'r Strategaeth Chwaraeon Elitaidd a gyhoeddwyd yn 2010 ac a ddiweddarwyd yn 2015 yn enghraifft dda o strategaeth sy'n seiliedig ar bolisi, sydd â mandad clir, sy'n cyfiawnhau'r blaenoriaethau, ac sydd â nodau a thargedau tryloyw a chydawns a bennwyd ar sail ymchwil annibynnol. Mae angen ei diwygio fel ei bod yn adlewyrchu'r ffocws presennol ar ddatblygu system perfformiad a meithrin talent sy'n gynaliadwy, ac mae angen iddi hefyd egluro'r manteision sy'n gysylltiedig â mabwysiadu dull o weithredu sy'n hoelio sylw ar ennill medalau. Er hynny, mae'r sylfaen polisi a thystiolaeth yn un gadarn y mae modd ei gwella ac mae'n dempled defnyddiol ar gyfer strategaeth bwrpasol ar chwaraeon cymunedol neu ar gyfer strategaeth gyffredinol ar chwaraeon.

Yr argymhellion

- i) Bod Chwaraeon Cymru yn arwain gwaith i ddatblygu strategaeth hirdymor newydd ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a fydd yn:
 - (a) ymateb i'r cyfeiriad polisi ar gyfer chwaraeon a fydd yn cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru yng nghyd-destun ei hamcanion i greu Cymru iach ac egniol;
 - (b) seiliedig ar ymgynghori a thrafodaeth gynhwysol a thryloyw gyda'r sector chwaraeon (yn ei ystyr ehangach) a chyda sectorau a sefydliadau perthnasol eraill, gan ystyried cyfrifoldebau ehangach rhai o'r partneriaid cyflawni;
 - (c) sicrhau bod chwaraeon cymunedol a'r 'llwybr' chwaraeon a pherfformiad yn cael eu darparu ar sail gweledigaeth glir sy'n gydawns â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
 - (d) cwmpasu chwaraeon elft yn ogystal â chwaraeon cymunedol/ar lawr gwlad ac yn rhoi diffiniad clir o lwyddiant a'i bwysigrwydd i'r agenda polisi ehangach;
 - (e) yn cael ei chysylltu â strategaethau partneriaid os byddant yn berthnasol neu os bydd y canlyniadau a bennir ynddynt yn rhai cyffredin;
 - (f) cynnwys canlyniadau, metrigau a fframwaith perfformiad cadarn, a fydd yn amlinellu cyfrifoldebau'n glir, ac a fydd yn cynnwys proses fuddsoddi dryloyw;
 - (g) yn cael ei hadolygu'n annibynnol o bryd i'w gilydd.

4. Diben a Rôl

4.1 Yng nghylch gorchwyl yr Adolygiad hwn, gofynnir i Chwaraeon Cymru fynd ati, mewn cyd-destun lle mae cyllidebau yn y sector cyhoeddus yn crebachu, i ehangu ei ddylanwad mewn cymunedau, i rannu canlyniadau ac adnoddau gyda chyrrff cenedlaethol eraill, ac i gynllunio ar y cyd er mwyn chwarae'i ran wrth wireddu agenda llesiant ehangach. Un o'r amcanion yn yr agenda llesiant honno yw sicrhau lefelau uwch o weithgarwch corfforol, a disgwylir i chwaraeon gyfrannu at yr amcan hwnnw yn ogystal ag amcanion eraill sy'n cefnogi'r nod o fod yn genedl sy'n llwyddiannus ym myd y campau.

4.2 Cyn ystyried pa mor effeithiol yw Chwaraeon Cymru o ran cyflawni amcanion a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn hynny o beth, mae'n bwysig deall diben y sefydliad a chanfyddiad pobl o'r rôl y mae'n ei chwarae neu y dylai fod yn ei chwarae.

Diben

4.3 Sefydlwyd Chwaraeon Cymru drwy Siarter Frenhinol ar 4 Chwefror 1972, a'i amcanion oedd "meithrin gwybodaeth am chwaraeon a gweithgareddau hamdden corfforol, a'r arfer o gymryd rhan ynddynt, ymhlith y cyhoedd yng Nghymru yn gyffredinol, a darparu cyfleusterau ar gyfer gwneud hynny...". Â'r Siarter yn ei blaen i ddweud (o'i gyfieithu):

Bydd amcanion y Cyngor hefyd yn cynnwys cefnogi, hyrwyddo a meithrin gwybodaeth am chwaraeon a gweithgareddau hamdden corfforol, a'u datblygu. Byddant hefyd yn cynnwys sicrhau rhagoriaeth ynddynt ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru, a darparu cyfleusterau.

4.4 Dyma'r pwerau a roddwyd i Chwaraeon Cymru er mwyn iddo fedru hyrwyddo'i amcanion:

- datblygu a gwella gwybodaeth am **chwaraeon a gweithgareddau hamdden corfforol** a datblygu a gwella arferion ac addysg a hyfforddiant yn y maes er budd a llesiant cymdeithasol y cyhoedd yng Nghymru;
- hybu a datblygu **perfformiad** o safon uwch a **rhagoriaeth** ymhlith pobl a thimau o Gymru sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden corfforol;
- meithrin, cefnogi neu ddarparu cyfleusterau er budd chwaraeon a gweithgareddau hamdden corfforol;
- mynd ati ei hun, neu annog a chefnogi pobl neu gyrff eraill i wneud gwaith ymchwil neu gynnal astudiaethau am faterion yn ymwneud â chwaraeon a gweithgareddau hamdden corfforol yng Nghymru, a lledaenu gwybodaeth a chynghor am y materion hynny;
- hyrwyddo, hwyluso neu weithredu ar gynigion neu ganfyddiadau sy'n deillio o ymchwil neu astudiaethau o'r fath;
- cynghori, annog a chynorthwyo unigolion a/neu dimau sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau neu sydd am gael profiad perthnasol gartref neu dramor;

- cyngori a chynorthwyo a chydweithredu â Llywodraeth Cymru a'i hadrannau, awdurdodau lleol a chyrff eraill ar unrhyw faterion sy'n gysylltiedig, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â'r amcanion hyn;
- rhoi grantiau neu fenthyciadau.

4.5 Mae'r Siarter Frenhinol yn darparu hefyd fod yn rhaid i Chwaraeon Cymru roi sylw i unrhyw ddatganiadau cyffredinol am bolisi gan Lywodraeth Cymru neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac ymgynghori â chyrff sy'n llywodraethu neu'n cynrychioli chwaraeon a gweithgareddau hamdden corfforol, awdurdodau lleol, a chyrff priodol eraill wrth iddo fynd ati i gyflawni ei amcanion ac arfer ei bwerau;

4.6 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad hwn yn dangos yn glir fod diben Chwaraeon Cymru yn cael ei lywio gan y Siarter Frenhinol. Y canfyddiad sydd gan bobl o'r diben hwnnw yw ei fod yn:

- hyrwyddo ac yn cefnogi chwaraeon a gweithgareddau hamdden;
- cefnogi athletwyr elft ac yn meithrin talent;
- darparu cyllid ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol;
- cynnig arweiniad ac yn pennu cyfeiriad ar gyfer chwaraeon yng Nghymru;
- cefnogi partneriaid ac yn cydweithio â nhw i ddarparu chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

4.7 Mae anghysonderau o ran y derminoleg a ddefnyddir yn yr amryfal ffynonellau sy'n disgrifio rôl Chwaraeon Cymru. Er enghraifft, er bod y Siarter Frenhinol yn defnyddio'r term "sport and **physical recreation**", dywedir ar wefan Chwaraeon Cymru mai ef "...yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hybu chwaraeon a **gweithgarwch corfforol** yng Nghymru". Mae'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yn nodi mai maes Chwaraeon Cymru o fewn y sbectwm gweithgarwch corfforol a amlinellir yn 'Creu Cymru Egniol yw '**Chwaraeon**' a '**Gweithgarwch Hamdden Egniol**'. Nid yw'r Strategaeth Chwaraeon Cymunedol yn defnyddio unrhyw derm arall heblaw 'Chwaraeon', a hwnnw hefyd yw'r unig derm sy'n cael ei ddefnyddio yn y targed yn y 'Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru'. Mae'r Llythyrau Cylch Gwaith blynyddol hwythau wedi cyfeirio yn eu tro naill ai at 'gweithgarwch corfforol' neu 'gweithgareddau hamdden corfforol'.

4.8 Mae'r anghysondeb hwn yn peri cryn ddryswch i bartneriaid Chwaraeon Cymru, a honnodd rhai ohonynt fod yn sefydliad yn 'anghyson' ac nad yw'n glir am ei ddiben. Mae'n peri'r un dryswch i'r rheini o blith staff Chwaraeon Cymru sy'n ymwneud â phartneriaid ac y disgwylir iddynt arfer cysondeb wrth gyfleu amcanion a blaenoriaethau'r sefydliad.

Gweithgarwch Corfforol ac Iechyd a Llesiant

4.9 Roedd rhywfaint o siom ymhlith partneriaid nad oedd fawr o gynnydd wedi'i wneud o ran sefydlu trefniadau cydweithredu rhwng y sector chwaraeon a'r sector iechyd, er gwaethaf y ffaith bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y sector chwaraeon a Chonffederasiwn y GIG. Roedd rhai ohonynt yn parhau'n ddryslud ynglŷn â rôl chwaraeon yng nghyd-destun yr agenda gweithgarwch corfforol, yn enwedig o ran y cyfraniad yr oedd disgwyl i'r sector ei wneud, y gydberthynas rhwng

y dulliau mesur ar gyfer 'gwirioni ar chwaraeon' a chanllawiau'r Prif Swyddog Meddygol, a sut y bwriedid mesur yr effaith y byddai pob sefydliad yn ei chael a sut y byddent yn cael eu dal i gyfrif. Roeddent o'r farn bod hwn yn fater i Lywodraeth Cymru, yn fwy nag i Chwaraeon Cymru, a chyfeiriasant at yr angen am eglurder llwyr ynglŷn â rôl a chyfrifoldebau Chwaraeon Cymru a'r gwahaniaeth rhyngddynt, a rolau a chyfrifoldebau Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

4.10 Er gwaethaf y diffyg eglurder hwn, mae Chwaraeon Cymru, er clod iddo, wedi parhau i fynd ar drywydd cyfleoedd i gefnogi ac i gysylltu partneriaid traddodiadol ac annhraddodiadol drwy'r cynllun GalwAmWeithredu er mwyn darparu prosiectau gweithgarwch corfforol. Nod y cynllun yw mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal grwpiau penodol rhag cymryd rhan mewn chwaraeon cymunedol, gan gydnabod bod angen gwella cyfleusterau, sgiliau a mynediad. Yn ystod ail gam y cynllun GalwAmWeithredu, aed ati'n benodol i dargedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan wella mynediad i gyfleusterau a rhoi cyfleoedd i unigolion feithrin y sgiliau priodol i fod yn gorfforol egnïol. Un o'r prosiectau a ariannwyd yn ystod cam 1 oedd creu partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chwaraeon Anabledd Cymru er mwyn mynd ati ar draws y Gogledd i annog rhagor o bobl anabl i fod yn gorfforol egnïol a lleihau'r angen am ymyrraeth feddygol am nad ydynt yn gwneud unrhyw weithgarwch corfforol. Yn ystod ail gam y cynllun, daeth nifer o bartneriaid ynghyd i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu menywod a merched, i gynnig cyfleoedd i bobl ag anableddau, cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Roedd y partneriaid yn cynnwys un o'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, MIND Cymru, cymdeithas dai a Phêl-droed Stryd Cymru.

4.11 Cydnabuwyd mai gan y sector Iechyd yr oedd y cyfrifoldeb arweiniol dros weithgarwch corfforol ond roedd cydnabyddiaeth hefyd fod gan Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid rôl bwysig i'w chwarae o ran cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol. Roedd effaith yn fater a oedd yn dal i gael ei drafod, a hynny yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a 'Symud Cymru Ymlaen', rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru. Dyma'r cwestiynau a gododd yn ystod ein cyfweiliadau:

- Pa feysydd a materion y dylid disgwyl i Chwaraeon Cymru eu harwain a pha rai a ddylai gael eu harwain gan eraill
- Sut y mae diffinio chwaraeon a sut y dylid taro cydbwysedd rhwng faint o ffocws a roddir ar chwaraeon traddodiadol a chystadleuol o'u cymharu â gweithgarwch annhraddodiadol, anffurfiol, heb ei strwythuro.
- Pwy sy'n gyfrifol am geisio cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ymhlith yr aelodau hynny o'r boblogaeth nad ydynt yn actif
- Sut y mae mesur effaith er mwyn cymharu cynnydd ym mhob maes sy'n rhan o'r sbectrwm gweithgarwch corfforol a phwy sy'n atebol am y meysydd hynny.

4.12 Cafodd y cynllun gweithgarwch corfforol 'Cael Cymru i Symud' ei gyhoeddi'n ddiweddar ac mae'n pennu ffocws clir ar gyfer yr holl bartneriaid o dan nifer o feysydd polisi. Mae Chwaraeon Cymru yn un o nifer o bartneriaid sydd â rôl benodol i'w chwarae drwy chwaraeon. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn cydweithio

â phartneriaid i ddatblygu dulliau mesur ar gyfer y sbectrwm gweithgarwch corfforol er mwyn lleihau anghydraddoldeb, ac mae'n ymgynghori yn eu cylch ar hyn o bryd.

4.13 Awgrymwyd mai rôl Chwaraeon Cymru yw sicrhau canlyniadau ar lefel y boblogaeth drwy gyfrwng chwaraeon a gweithio gydag ysgolion er mwyn hyrwyddo rôl fwy amlwg i weithgarwch corfforol a llythrennedd corfforol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Barnwyd hefyd fod ganddo rôl i'w chwarae o ran cefnogi a chydgysylltu'r sector fel ei fod yn cyflawni'r agenda ehangach ym maes gweithgarwch corfforol a llesiant. Wedi dweud hynny, ni ddylid ystyried mai ef oedd yr awdurdod arweiniol yn hynny o beth. Ni ddylai fod yn gyfrifol ychwaith am gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ymhlith y boblogaeth anactif; roedd lechyd Cyhoeddus Cymru yn barnu mai ei rôl ef oedd honno.

Rôl

4.14 Un o lwyddiannau mawr Chwaraeon Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf oedd arwain a chynorthwyo gyda'r gwaith o foderneiddio Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol ym maes y Campau. Mae gan nifer ohonynt bellach Fyrddau sy'n amrywiol o ran profiad ac arbenigedd a Phrif Weithredwyr neu Reolwyr Cyffredinol sydd wedi ennill eu plwyf fel arweinwyr ac sydd wedi bod mewn swyddi amrywiol y tu mewn a'r tu allan i'r sector.

4.15 Gwelwyd newidiadau dramatig ym maes llywodraeth leol dros y 10 mlynedd diwethaf ac ychydig iawn ohonynt sydd bellach â Phrif Swyddogion sy'n gyfrifol am chwaraeon a hamdden yn unig. Gall eu rolau fod yn ehangach o lawer, a'u cyllidebau'n dynnach o lawer, ac efallai fod disgwyl iddynt gyflawni mwy â llai neu, a dweud y gwir, gyflawni llai. O'r herwydd, mae'r swyddog datblygu chwaraeon traddodiadol wedi diflannu i bob pwrpas neu, o leiaf, mae cyfrifoldebau'r swydd wedi newid cymaint fel eu bod yn ymwneud mwy â datblygu pobl iach ac egniol na datblygu chwaraeon traddodiadol.

4.16 Oherwydd y newidiadau hyn a'r ffaith bod y cyd-destun polisi a blaenoriaethau'r llywodraeth wedi newid, roedd cytundeb cyffredinol ei bod yn amser da i Chwaraeon Cymru adolygu ei rôl a sut y mae'n gweithio gyda phartneriaid i gyflawni canlyniadau cenedlaethol drwy gyfrwng chwaraeon. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio at wybodaeth y daethom ar ei thraws am un o'r cyrff sydd â rôl gyfatebol i Chwaraeon Cymru, sef SportScotland. Mae'n bosibl bod gwersi i'w dysgu o'r profiad a gafwyd pan oedd yr Alban yn paratoi at Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014 ac yn datblygu gwaddol lle mai gweithgarwch corfforol oedd ei flaenoriaeth ganolog.

4.17 Un o'r heriau sy'n wynebu sefydliad fel Chwaraeon Cymru yw cadw'r ddysgl yn wastad rhwng ei swyddogaeth darparu grantiau neu fuddsoddi, a'i swyddogaeth fel hyrwyddwr, hwyluswr a grym sy'n uno'r sector. Roedd yn anodd meithrin perthynas ag eraill weithiau pan roedd gofyn i'r un sefydliad neu'r un bobl ffrwyno a herio partneriaid ac, mewn ambell achos, dynnu cyllid yn ôl.

4.18 Yn y bôn, barn partneriaid Chwaraeon Cymru oedd y dylai'r sefydliad fod yn un y gwelir ei fod yn ychwanegu gwerth; yn arbenigwr yn ei faes; yn gyfaill beirniadol; yn gorff i droi ato am gyngor, tystiolaeth a gwybodaeth; ac yn ddylanwadol o ran ei allu i gysylltu â sectorau eraill ac adrannau polisi ym maes

llywodraeth neu ag arbenigwyr allanol a allai ddarparu gwybodaeth a gwerth ychwanegol. Yn lle hynny, y teimlad oedd ei fod yn ddarparwr grantiau, neu'n fuddsoddwr, a oedd yn eithaf haearnidd ac anhyblyg wrth wneud penderfyniadau ariannu. Nid oedd yn ystyried blaenoriaethau ehangach y sawl a oedd yn cael cyllid, ac roedd yn rhoi blaenoriaeth i chwaraeon cystadleuol, chwaraeon perfformio a chwaraeon elît yn hytrach na chwaraeon cymunedol.

4.19 Roedd partneriaid am weld Chwaraeon Cymru sydd â gweledigaeth glir ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r llywodraeth ac sy'n gwbl glir am ei ddiben ef a diben y sector. Roeddent am weld sefydliad a chanddo gysylltiadau da â'r byd y tu allan i faes chwaraeon, sy'n gwneud penderfyniadau mewn ffordd agored, ac yn defnyddio gwybodaeth mewn ffordd greadigol ac arloesol er mwyn datblygu atebion i'r rhwystrau a'r heriau sy'n wynebu'r sector.

Swyddogaeth a Chwmpas

4.20 Mae'n tystiolaeth yn awgrymu na fyddai'n ddoeth gwahanu chwaraeon cymunedol oddi wrth chwaraeon elît, er gwaethaf yr haerriad nad oedd, tan yn ddiweddar, fawr o gydweithio rhwng y ddau dîm sy'n gyfrifol am y meysydd hynny yn Chwaraeon Cymru. Er y byddai modd dadlau y gallai rhywun arall gyflawni'r swyddogaeth o gefnogi athletwyr elît, ac y gallai'r tîm sy'n gyfrifol am chwaraeon elît gael ei leoli yn rhywle arall, roedd y cwlwm rhwng chwaraeon cymunedol a chwaraeon elît yn un annatod a dylent barhau i fod yn gyfrifoldebau i'r un corff.

4.21 Yn Lloegr, mae Sport England, sef y corff sy'n cyfateb i Chwaraeon Cymru, yn gweithio ar sail dau bortffolio lle y mae'n helpu Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol (CLIC) i ddarparu chwaraeon, ac yn helpu partneriaid eraill i ddarparu gweithgarwch corfforol neu i droi anweithgarwch yn weithgarwch. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio ar sail portffolios cymysg lle y gall helpu CLIC i ddarparu'r seilwaith a'r systemau ar gyfer y fersiynau ffurfiol ac anffurfiol o'r gamp, a hefyd y llwybr meithrin perfformiad er mwyn cyrraedd y lefel elît. Mae'r cyrff hynny'n cael eu hariannu hefyd i ddarparu ymyriadau i fynd i'r afael â thlodi, cydraddoldeb a blaenoriaethau eraill o ran polisi. Mae hefyd yn rhoi cyllid i awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ddarparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol/gweithgareddau hamdden corfforol. Yr her sy'n wynebu Chwaraeon Cymru yng nghyd-destun yr agenda polisi newydd yw taro cydbwysedd o ran cyfeiriad strategol a buddsoddiad er mwyn sicrhau bod modd cynnal y seilwaith ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden corfforol, yn ogystal â datblygu arlwy ehangach a gweithgareddau newydd.

Chwaraeon Elît

4.22 Un arall o lwyddiannau Chwaraeon Cymru yw'r cyfraniad y mae'r tîm chwaraeon elît wedi'i wneud i'r nifer trawiadol o fedalau y mae Cymru wedi'u hennill yng Ngemau'r Gymanwlad, a hefyd ei gyfraniad i lwyddiant athletwyr o Gymru wrth iddynt gystadlu yn y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd yn ddiweddar, ac mewn cystadlaethau byd-eang a rhyngwladol eraill.

4.23 Nid dim ond y ansawdd y gefnogaeth a roddodd i athletwyr oedd i gyfrif am lwyddiant tîm elît Chwaraeon Cymru ond hefyd ei gyfeiriad strategol a'r berthynas agos ac effeithiol rhyngddo a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol a'r athletwyr, yr hyfforddwyr a'r Cyfarwyddwyr Perfformiad. Mae rôl y tîm elît yn cyd-fynd yn dda â pholisi'r llywodraeth oherwydd ei bod wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â'r adolygiad a

gomisiynwyd ac a reolwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2008. Cafodd y Strategaeth gyntaf ar Chwaraeon Elfït ei datblygu yn 2010 o ganlyniad i ddatganiad polisi gan Lywodraeth Cymru ac fe'i cymeradwywyd gan Weinidogion. Cafodd y strategaeth ei diweddarau a'i hail-lansio yn 2015. Mae ynddi newidiadau cynnil ond mae'n parhau'n gydnaws â'r datganiad polisi a wnaed bron deng mlynedd yn ôl.

4.24 Er bod datganiad polisi Llywodraeth Cymru yn parhau'n gyfredol, mae Chwaraeon Cymru yn cydnabod bod angen iddo, ar adeg pan fo blaenoriaethau'n cystadlu â'i gilydd a chyllidebau'n crebachu, ymhelaethu ar y rhesymau pam y mae llwyddiant yn berthnasol yng nghyd-destun yr heriau sy'n wynebu'n cymdeithas ar hyn o bryd. Felly, mae'r tîm wedi dechrau ar ddau ddarn o waith; un i gasglu tystiolaeth i ddangos y manteision ehangach sy'n gysylltiedig â llwyddo i ennill medalau ac un arall i greu system sy'n rhoi mynediad a chyfle i bawb lwyddo yn y gamp y maent wedi'i dewis. Mae cyfle bellach i ddiweddarau'r datganiad polisi ac i fynd ati, unwaith y bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, i wella'r canlyniadau y gall chwaraeon elfït eu cyflawni.

4.25 Nid oedd y Strategaeth Chwaraeon Elitaidd yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau mawr oherwydd bod y manteision a grybwyllwyd yn ymwneud â'r economi yn hytrach nag â chymryd rhan mewn chwaraeon neu berfformiad ym maes y campau. Roedd Chwaraeon Cymru wedi gwneud rhywfaint o gyfraniad o ran y cysylltiadau posibl rhwng digwyddiad a datblygu'r gamp o dan sylw ond roedd wedi gwneud hynny ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud i gynnig cynnal y digwyddiad. Roedd mega-ddigwyddiadau yn fwy tebygol o ysgogi diddordeb mewn chwaraeon a rhoi iddynt broffil y gallai'r sector elwa arno. Roedd sicrhau y byddai digwyddiad mawr yn cael effaith o ran datblygu chwaraeon, yn ogystal â manteision economaidd, yn fwy o her.

Casgliadau

4.26 Disgwylir i Chwaraeon Cymru gyrraedd mwy o grwpiau ac ehangu ei waith yn ein cymunedau, i rannu canlyniadau ac adnoddau gyda chyrff cenedlaethol eraill a chynllunio ar y cyd er mwyn chwarae'i ran wrth wireddu agenda llesiant ehangach. Un o'r amcanion yn yr agenda llesiant honno yw sicrhau lefelau uwch o weithgarwch corfforol, a disgwylir i chwaraeon gyfrannu at yr agenda honno yn ogystal ag amcanion eraill – yn eu plith y nod o fod yn genedl lwyddiannus ym myd y campau.

4.27 Mae'r cyd-destun polisi, a phroffesiynoldeb a chylch gwaith ehangach partneriaid Chwaraeon Cymru, wedi newid digon fel bod cyfiawnhad dros ystyried ei ddiben a'i rôl, yr hyn y mae angen iddo ei wneud yn wahanol, a sut y dylai weithio er mwyn sicrhau ei fod ef a'r sector yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i'r agenda newydd. Rhaid bod yn gwbl glir am ei ddiben a rhaid wrth ddiffiniad diamwys o'i rôl ef a'i bartneriaid, ond mae hwnnw'n gyfrifoldeb y dylid ei rannu rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a'r sector. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, roedd Chwaraeon Cymru wedi mynd ati cyn yr adolygiad hwn i ddechrau ystyried ei gyfeiriad strategol a mesur ei effaith yn unol â'r nodau llesiant. Byddem yn awgrymu y dylid bwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw o ddifrif, ond gan ymgynghori'n eang nid yn unig ynghylch pam mae'r corff yn bodoli ond hefyd ynghylch yr hyn y mae'n ei wneud, a pham a sut y mae'n ei wneud.

4.28 Er bod Gweinidogion gwahanol yn Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bolisi ar chwaraeon cymunedol a chwaraeon elît, nid oes unrhyw gyfiawnhad rhesymol dros wahanu'r swyddogaethau, ond mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir iawn bod cyfleoedd i ddod â'r tîm chwaraeon cymunedol a'r tîm chwaraeon elît yn nes at ei gilydd ac i chwalu'r meddylfryd seilo er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

4.29 O gofio gwaith y tîm elît ar ddatblygu systemau a chasglu tystiolaeth i esbonio pam mae medalau'n bwysig, bydd cyfle i ddiweddarau datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar chwaraeon elît er mwyn adlewyrchu'n briodol y cyfraniad y gall llwyddiant ym myd y campau ei wneud i'r nodau llesiant.

4.30 Ar ddechrau'r adran hon, nodwyd bod posibilrwydd i'r swyddogaeth o gefnogi athletwyr elît gael ei lleoli yn rhywle arall. Trafodir y mater hwn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn ond mae'n werth nodi bod Chwaraeon Cymru o'r farn bod yr opsiwn hwnn'n un cadarnhaol, am ei fod yn cydnabod y bydd sefyllfa'n codi rywbryd yn y dyfodol pan na fydd digon o le yn y ganolfan genedlaethol ar gyfer y math o gyfarpar a lefel y gwasanaeth y bydd eu hangen ar athletwyr er mwyn eu paratoi ar gyfer llwyddiant.

Yr argymhellion

- i. Dylai Llywodraeth Cymru egluro diben Chwaraeon Cymru a'r rôl y mae disgwyl iddo ef a'r sector chwaraeon ei chwarae o ran cyflawni'r nodau a'r amcanion llesiant.
- ii. Dylai Llywodraeth Cymru ddiffinio'n glir yr hyn y mae Chwaraeon Cymru yn gyfrifol amdano o fewn y sbectrwm gweithgarwch corfforol a'r hyn y bydd yn atebol amdano o ran yr amcanion llesiant.
- iii. Dylai Chwaraeon Cymru drafod yn brydlon ac yn helaeth â'i bartneriaid a'i randdeiliaid i egluro ei rôl yn unol â'r polisi newydd a sut y bydd yn ychwanegu gwerth at waith y sector ehangach o ran sicrhau bod chwaraeon yn gwneud y cyfraniad gorau posibl at gyflawni'r nodau llesiant.
- iv. Dylai Llywodraeth Cymru ailedrych ar ei datganiad polisi ar chwaraeon elît ar ôl i Chwaraeon Cymru gwblhau'r gwaith y mae'n ei wneud i esbonio pam mae ennill medalau yn bwysig.

5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

5.1 Mae'r Ddeddf yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Saith nod y Ddeddf yw:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

5.2 Mae'n ofyn yn y Ddeddf fod y cyrff cyhoeddus a restrir yn y ddeddfwriaeth, gan gynnwys Chwaraeon Cymru, yn mabwysiadu pum ffordd o weithio:

- sicrhau bod y ddysgl yn cael ei chadw'n wastad rhwng yr angen i ddiwallu anghenion tymor byr a'r angen i ddiwallu anghenion tymor hir.
- gweithredu i rwystro problemau rhag digwydd neu waethygu, yn hytrach na delio'n unig â chanlyniadau problemau.
- gweithredu i helpu cyrff eraill i gyflawni nodau'r Ddeddf ac osgoi gweithredoedd a allai'u rhwystro rhag gwneud hynny.
- gweithio gydag eraill i gyflawni'r nodau llesiant.
- ennyn diddordeb pobl mewn cyflawni'r nodau llesiant a gofalu bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth pobl Cymru.

5.3 Mae'n ofyn yn y Ddeddf hefyd fod y cyrff cyhoeddus hyn yn gwneud yr hyn a wnânt mewn ffordd gynaliadwy, i wneud yn siŵr eu bod yn ystyried sut y gallai'u penderfyniadau effeithio ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol.

5.4 Drwy'r Ddeddf, sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei hardal drwy weithio at y nodau llesiant. Rhaid i aelodaeth pob PSB gynnwys yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol, yr Awdurdod Tân ac Achub Cymru ar gyfer yr ardal a Cyfoeth Naturiol Cymru. Hefyd, rhaid i bob PSB wahodd eraill, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am unrhyw ran o ardal yr awdurdod lleol, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, o leiaf un corff sy'n cynrychioli mudiadau gwirfoddol perthnasol a phobl eraill sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus, i ymaelodi â'r Bwrdd. Rhaid i'r PSB baratoi Cynllun Llesiant Lleol sy'n rhestru ei nodau a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w gwireddu. Bydd yn ymgynghori'n eang ar y cynllun, yn ei gyhoeddi ac yn ei adolygu bob blwyddyn.

5.5 Mae gofyn i Chwaraeon Cymru bennu amcanion llesiant a fydd yn gwneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni nodau'r Ddeddf yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy (y pum ffordd o weithio). Dylai'r amcanion hynny nodi'n glir iawn sut y bydd yn sicrhau bod popeth a wna, popeth y mae'n ei hwyluso neu'n dylanwadu arno a'r sefydliadau y mae'n eu hariannu yn cael effaith lesol ar y bobl a fydd yn byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Cyfraniad Chwaraeon Cymru

5.6 Roedd Chwaraeon Cymru i'w weld yn deall yn dda y Ddeddf a'r ddyletswydd y mae'n ei rhoi arno. Roedd rhai o aelodau'r Bwrdd yn brin o sgiliau o ran deall y cyfraniad llawn y gallai Chwaraeon Cymru ei wneud ond roedd archwiliad sgiliau'n cael ei gynnal i fynd i'r afael â hynny. Roedd yr aelodau annibynnol ar ei is-grwpiau hefyd yn cefnogi'r Bwrdd gan ddod â phersbectif arall i'w drafodaethau.

5.7 Roedd rhai nodau'n fwy perthnasol i Chwaraeon Cymru nag eraill ond mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofyn ar y corff i wneud y mwyaf o'i gyfraniad at yr holl nodau llesiant ac y dylai ystyried effeithiau ehangach ei weithredoedd. Er y dylai Chwaraeon Cymru roi ei sylw pennaf i'r meysydd y mae'n gyfrifol amdanynt a allai gael yr effaith fwyaf ar y nodau llesiant, awgrymwyd y dylai geisio cydweithio ag eraill lle gwelir cyfleoedd am synergedd i gyflawni canlyniadau. Enghraifft ymarferol o hyn yw prosiect cydweithredol sy'n rhoi cyfleoedd i bobl fwynhau seiclo fel ffurf ar ymarfer corff ac a fyddai'n rhoi'r hyder iddynt ac yn eu cymell i seiclo i'r gwaith ar hyd lwybrau beicio costeffeithiol – enghraifft o gyfrannu at Gymru Iachach, fwy Llewyrchus a Chydnerth.

5.8 Cydnabuwyd mai'r agwedd bwysicaf ar rôl Chwaraeon Cymru yw cyfraniad chwaraeon at yr agenda gweithgarwch corfforol. Hefyd, dylai roi blaenoriaeth i atal neu leihau effaith andwyol profiadau plentynod ar blant a phobl ifanc. Yn yr un modd, awgrymwyd y gallai'r boblogaeth hŷn fod yn faes y gellid rhoi sylw iddo a buddsoddi ynddo er iddo gael ei ddiystyru hyd yma. Gellid cael effaith arwyddocaol ar les corfforol a meddyliol pobl oedrannus gan leihau costau gofal iechyd a chymdeithasol yn ogystal â helpu pobl i weithio a byw'n hirach.

5.9 Oherwydd eu haelodaeth, roedd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) yn gyfrwng ar gyfer gwneud cysylltiadau rhwng partneriaid a sectorau gan effeithio ar ystod o nodau llesiant yn eu hardal. Roedd yn anodd i rai cyrff cyhoeddus sicrhau cynrychiolaeth ar bob un o'r 22 PSB ond gallai'r cyrff sy'n gallu helpu i gyflawni'r nodau fod ar eu hennill o gael cyfrannu at y trafodaethau ynghylch sut i newid polisïau a phenderfyniadau lleol neu ddatblygu ffyrdd newydd o weithio. Mae rhai cyrff cyhoeddus eisoes yn gweld manteision bod yn aelod o PSB oherwydd ei bwrpas cyffredin a'r angen i feddwl a gweithredu mewn ffordd gydweithredol er lles y gymuned.

Arweinyddiaeth ac Eiriolaeth

5.10 Er bod Chwaraeon Cymru wedi trafod yn fewnol ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf a'r cyfleoedd a geir i gydweithio ac effeithio ar y meysydd y mae'n gyfrifol amdanynt nhw sy'n cyfrannu at y nodau llesiant, ni fu fawr o ymgysylltu â'r sector. Yn ddiweddar iawn, bu mwy o ymgysylltu â phartneriaid ynghylch sut y gallai Chwaraeon Cymru effeithio ar y nodau llesiant ac roedd Fforwm Prif Swyddogion Gweithredol Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol (CLIC) wedi cael cyflwyniad gan Chwaraeon Cymru am y Ddeddf. Roedd y cyflwyniad hwnnw'n un defnyddiol meddent. Wedi dweud hynny, roedd sawl CLIC a phartner arall yn dal i fod yn aneglur ynghylch yr hyn a ddisgwyliid ganddynt, pa bartneriaid neu sectorau y dylent fod yn cysylltu â nhw a ble y gallent gael yr effaith fwyaf. Er bod meysydd amlwg, fel gwirfoddoli a llythrennedd corfforol, lle gallai eu gweithgareddau gyfrannu at y nodau llesiant, un o'u pryderon pennaf oedd bod eu hadnoddau a'u capasiti i gyfrannu'n

ehangach yn fach oni bai bod y cyfraniad hwnnw'n gymesur ac yn cael ei roi ar y cyd ag eraill.

Casgliadau

5.11 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gyfle i gyrff cyhoeddus weithio ar draws ffiniau ac yn fwy cydweithredol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl a chymunedau ym mhob rhan o Gymru. Ni ddaw hynny i glawr heb fod gan bawb syniad gwell o'u rolau a'u cyfrifoldebau, eu bod yn deall lle gallai'r gyrff hynny gael yr effaith fwyaf a chyda phwy y dylent fod yn gweithio i gynyddu effaith eu gweithgareddau ar nodau eraill.

5.12 Mae Chwaraeon Cymru wedi dechrau'r broses o ddatblygu'i nodau ei hun ac asesu lle y gallai gael effaith ond mae statws y prosiectau'n aneglur. Mae'r rhain yn ddau ddarn pwysig o waith a allai helpu i ddylanwadu ar ffocws gweithgareddau Chwaraeon Cymru a bod yn sail ar gyfer datblygu neu wella partneriaethau â'r sector chwaraeon a sectorau eraill i wneud cyfraniad arwyddocaol at gyflawni'r nodau llesiant. Yr un mor bwysig yw'r angen am ddisgrifiad clir o'r camau y bydd Chwaraeon Cymru yn eu cymryd i gyflawni'r nodau hynny a beth mae hynny'n ei olygu o ran yr hyn y mae'n ei wneud yn wahanol a'r ffyrdd o weithio y bydd yn eu mabwysiadu.

5.13 Mae Chwaraeon Cymru wedi dechrau trafod gyda nifer o'i bartneriaid y cyfraniad y gall y sector cyfan ei wneud at y Ddeddf. Mae'n awyddus i ddeall ei rolau, ble y dylai roi'r sylw mwyaf a pha bartneriaid y dylai gydweithio â nhw.

5.14 Ymddengys fod y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrwng ar gyfer cysylltu'r hyn a gyflawnir yn lleol ag amcanion strategol lleol sy'n effeithio ar y nodau llesiant. Yn ogystal â bod yn lle i bartneriaid Chwaraeon Cymru ddangos eu heffaith a'u gwerth, ymddengys ei fod yn gyfle delfrydol am gydweithio gwell a mwy ystyrlon heb roi gormod o straen ar gapasiti ac adnoddau prin. Er na fydd modd i Chwaraeon Cymru gael ei gynrychioli ar bob PSB efallai, byddai'n ddoeth siarad â nhw i ddeall a rhannu eu hamcanion a'r cyfleoedd i ymgysylltu â CLIC a phartneriaid eraill.

Yr argymhellion

- i Dylai Chwaraeon Cymru gwblhau'r gwaith y mae wedi'i wneud ar y nodau llesiant a'u heffaith a pharhau i'w rannu â'i bartneriaid.
- ii Dylai Chwaraeon Cymru roi arweiniad i'r sector drwy hwyluso trafodaethau i benderfynu ble y dylai'r sector fuddsoddi a gweithio ynddo fwyaf a ble mae'r partneriaid mewn sectorau eraill y dylai fod yn cydweithio â nhw.
- iii Dylai'r canlyniadau llesiant a'r ffyrdd o weithio ddod yn rhan ganolog o bob agwedd ar gyfrifoldebau a gweithgareddau Chwaraeon Cymru, gan gynnwys ei strategaeth/strategaethau a'i gynlluniau busnes.
- iv Dylid datblygu arfau asesu i fesur effaith y sector ac elw cymdeithasol ei fuddsoddiad a dylent fod yn rhan o'r gwerthusiad o'r gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni'r amcanion llesiant y mae Chwaraeon Cymru wedi'u gosod ar ei gyfer ei hun.
- v Wrth ddiffinio ei amcanion llesiant, dylai Chwaraeon Cymru nodi'r partneriaid sy'n hanfodol i'w waith, sut y gallent gael eu hintegreiddio i

ddarparu canlyniadau ychwanegol a phwy sy'n atebol am y gwaith a wneir.

- vi Dylai Chwaraeon Cymru, gymaint ag y medrir, ymgysylltu â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, i gyd-ddatblygu amcanion a dulliau mesur effaith lle bo gofyn.
- vii Dylai Chwaraeon Cymru chwilio am fecanwaith effeithlon ac effeithiol ar gyfer deall, rhannu a llywio amcanion PSBs a'r cyfleoedd i ymgysylltu â CLIC a phartneriaid eraill.

6. Mesur Perfformiad a Blaenoriaethau Buddsoddi

Cylch y Gyllideb a Chynllunio

6.1 Mae cylch blynyddol y gyllideb, y cylch gwaith a chynllunio yn dechrau yn ystod Rownd Cynllunio Cyllideb Llywodraeth Cymru. Ar ôl cytuno ar gyllideb Chwaraeon Cymru, caiff y Llythyr Cylch Gwaith ei baratoi, ei drafod gyda Chwaraeon Cymru a'i gymeradwyo gan Weinidogion. Mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn cadarnhau'r gyllideb flynyddol ac yn disgrifio'r hyn y disgwylir i Chwaraeon Cymru ei wneud i gwrdd â'r agenda strategol a chynyddu ei heffaith o ran y canlyniadau llesiant. Dylai ddarparu dangosyddion hefyd i fesur perfformiad Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn.

6.2 Mewn gwirionedd, nid yw pob cylch yn cydreddeg ac mae Chwaraeon Cymru, gan ragdybio'i gyllideb debygol, yn paratoi ei Gynllun Busnes cyn cael y Cylch Gwaith ac yn atodi'r ddogfen wrth y drafft terfynol. I helpu Chwaraeon Cymru i baratoi'r cynllun busnes cyn iddo gael y Llythyr Cylch Gwaith, mae swyddogion Polisi Chwaraeon yn dilyn proses benodol wrth ddrafftio. O ganlyniad, prin bod unrhyw beth annisgwyl yn y Cylch Gwaith pan ddaw i law'r Cadeirydd a phrin hefyd fydd unrhyw newidiadau i'r Cynllun Busnes drafft y bydd Chwaraeon Cymru wedi'i baratoi.

6.3 Mae angen cymeradwyaeth y Gweinidog ar y Cynllun Busnes blynyddol a chreffir arno wedi hynny yn y Cyfarfodydd Rheoli Chwarterol a gynhelir rhwng Chwaraeon Cymru a'r Is-adran Noddi i drafod hynt y rhagolygon ariannol a'r amcanion. Y Cyfarfodydd Rheoli Chwarterol hefyd yw'r fforwm ar gyfer clywed am newidiadau i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a sicrhau eu bod yn cael eu hymgorffori yng nghynlluniau a gweithgareddau Chwaraeon Cymru.

6.4 Mae Llythyrau Cylch Gwaith mwy diweddar wedi cyfeirio at yr angen i ddatblygu fframwaith rheoli perfformiad er mwyn gallu asesu perfformiad Chwaraeon Cymru mewn ffordd fwy ystyrlon ar sail ei amcanion. Mae'r amcanion hynny wedi'u mynegi ar ffurf gweithredoedd penodol yn hytrach na thargedau neu ddangosyddion a'r rheswm am hynny yw am fod data y gellir seilio targedau arnynt neu eu defnyddio i fesur cynnydd yn cael eu cyhoeddi mor anaml. Mae'r Arolwg Chwaraeon Ysgol a'r Arolwg o Oedolion Egnïol wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol fel ffynhonnell ddata ar gyfer dadansoddi perfformiad at ryw lefel, ond erbyn cyhoeddi'r adolygiadau, roedd y data'n gallu bod yn ddwy flwydd oed, felly fel mesur blynyddol o berfformiad, nid oedd ganddynt fawr o werth. Mae'r un peth yn wir am ddangosyddion y campau elft. Targedau o ran medalau yng Ngemau'r Gymanwlad sy'n digwydd bob 4 blynedd oedd y rheini, ac nid ydynt ar eu pen eu hunain yn mesur effaith na pherfformiad Chwaraeon Cymru.

6.5 Mae rhai wedi awgrymu bod y data a gesglir gan Chwaraeon Cymru drwy ei arolygon ac adroddiadau rheoli ei bartneriaid yn gyfryngau annigonol ac y byddai'r sector ar ei ennill o gael tystiolaeth sy'n dangos manteision cymdeithasol y buddsoddiad. Awgrymwyd hyd yn oed mai'r cyfan oedd data'r arolygon oedd ffordd i Chwaraeon Cymru gyfiawnhau ei fodolaeth drwy hawlio cynnydd canrannol cronus bach bob dwy flynedd.

6.6 Roedd targed 'Gwirioni ar Chwaraeon' o weld 75% o bobl ifanc ac oedolion ifanc yn cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos hefyd yn fesur diystyr

a oedd yn destun pryder i bartneriaid. Er ei fod yn uchelgais rhesymol, hawliwyd nad oedd mewn gwirionedd yn cyd-fynd â chanllawiau'r Prif Swyddog Meddygol ar gyfer gweithgarwch corfforol ac nad oedd felly'n ddefnyddiol iawn i bartneriaid o ran dangos eu heffaith ar draws yr agenda polisi ehangach nac i bartneriaid posibl mewn sectorau eraill.

6.7 Oherwydd yr ansicrwydd ariannol yn y sector cyhoeddus yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r cyllidebau ar gyfer yr holl gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru wedi'u pennu ar gyfer un flwyddyn ariannol yn unig. Mae hyn yn rhwystro gyrff fel Chwaraeon Cymru rhag gwneud cynlluniau neu fuddsoddiadau tymor hir ac mae hynny yn ei dro yn effeithio ar y partneriaid y mae'n eu hariannu, yn enwedig rhai CLIC sy'n dibynnu'n drwm ar grantiau Chwaraeon Cymru. Mae goblygiadau hefyd i bartneriaid yn yr awdurdodau lleol sy'n cyflogi staff i gynnal rhaglenni cymunedol Chwaraeon Cymru a cheir sefyllfa flynyddol o ansicrwydd swyddi oherwydd yr amserlen ar gyfer cymeradwyo cynigion ariannu.

6.8 Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol sy'n cychwyn y broses cynllunio busnes yn Chwaraeon Cymru a chyflwynir y cynlluniau ar ffurf cyfres o ddrafftiau olynol i'r Bwrdd eu hystyried. Mae'r is-fyrddau amrywiol yn helpu'r Bwrdd i ystyried y cynllun busnes drafft. Mae'r is-fyrddau'n cynnwys pobl annibynnol sy'n arbenigo yn y maes y mae'r is-fwrdd yn gyfrifol amdano. Nid ymgynghorir â phartneriaid ar y Cynllun Busnes drafft.

Blaenoriaethau Buddsoddi

6.9 Roedd rhai o'r farn bod y drefn fuddsoddi yn fiwrocratig a haearnaidd ac y byddai'n well ganddynt fod partneriaid yn cael cyflwyno achosion busnes a fyddai'n cael eu hasesu yn ôl set o egwyddorion buddsoddi, canlyniadau perthnasol ond cymesur a dangosyddion perfformiad allweddol. Bernid y byddai cytundebau ariannu tymor hir a fyddai'n caniatáu amser i brofi syniadau creadigol yn ddefnyddiol gan ddangos ffydd a hyder mewn partneriaid. Awgrymwyd hefyd pe bai adrannau neu dimau'n cydariannu prosiectau a rhaglenni lle bo synergeddau'n eu cynnig eu hunain, y byddai hynny'n sicrhau bod buddsoddiadau'n cael eu gwasgaru'n ehangach ac yn ddigonol i gael mwy o effaith.

6.10 Cafodd Chwaraeon Cymru ei ganmol am ei bwyslais ar reoli risg mewn cysylltiad â'r cynllun grant GalwAmWeithredu a noddir gan y Loteri. Er bod cydnabyddiaeth y gallai fod yn anodd defnyddio arian Llywodraeth Cymru yn y modd hwnnw, dywedodd partneriaid y byddent yn croesawu'r cyfle i gael cyllid mwy hyblyg a fyddai'n caniatáu iddynt chwilio am atebion arloesol i heriau heb y perygl iddynt gael eu cosbi pe baent yn aflwyddiannus. Mynegwyd cefnogaeth i gyllido gan y Loteri ar ffurf y cynllun Cist Gymunedol presennol ac i ddefnyddio'r Grant Datblygu fel erfyn datblygu cymunedol yn ei le, lle byddai buddsoddiadau'n fwy proactif nac adweithiol. Roedd pobl eraill yn gefnogol i'r syniad hwn. Teimlent y byddai cronfa her (cyfalaf a referiw) yn ogystal â darparu arian 'craidd' yn annog partneriaid i chwilio am atebion penodol i broblemau sy'n ymwneud â champ benodol neu gymuned leol.

6.11 Barn rhai yw bod helpu pobl anactif i fod yn bobl egniol yn fater o newid ymddygiad ac y byddai'n well rheoli'r gwaith, o'r herwydd, yn lleol yn hytrach nag yn genedlaethol a hynny gan eraill, nid gan Chwaraeon Cymru. Dywedent y dylai

buddsoddiad cyhoeddus mewn chwaraeon dargedu'r rheini nad ydynt yn cymryd rhan yn aml nac yn rheolaidd mewn gweithgarwch corfforol. Gyda'r rheini y gwneir yr enillion mawr o ran iechyd.

6.12 Cynigiodd rhai y dylai CLIC fod dipyn yn llai dibynnol ar y pwrs cyhoeddus ymhen 5-10 mlynedd ond y bydd angen help arnyn nhw yn hyn o beth; i fabwysiadu agwedd busnes ac i ddatblygu syniadau ac i ddod â nhw i'r farchnad. Disgwylir rhywfaint o begynnu, gyda'r rheini sy'n gallu cyflawni'r agendâu ehangach yn tyfu'n gryfach a'r rheini nad ydynt yn gallu ar eu colled. Byddai Cyrff Llywodraethu sydd â llai o gapasiti, adnoddau ac arbenigedd i fod yn fwy creadigol a masnachol yn croesawu mwy o help a chynngor gan Chwaraeon Cymru.

6.13 Oherwydd bod y ffocws ym maes chwaraeon elfit ar adeiladu systemau a llwybrau meithrin talent, ychydig iawn o hyblygrwydd sydd gan CLIC i ddefnyddio'r arian y maent yn ei gael at unrhyw ddiben arall. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r gwasanaeth gwyddorau chwaraeon i gefnogi athletwyr sydd â photensial i ennill medalau sy'n golygu bod athletwyr eraill yn gorfod cael eu cefnogi gan y CLIC. Enghraifft arall o anhyblygrwydd y grantiau i'r CLIC oedd bod yn rhaid iddynt agor swyddfa yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru er y byddai rhai CLIC wedi hoffi cael presenoldeb ym Mhlas Menai.

6.14 Gyda'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn rhoi mwy a mwy o bwyslais ar ffyrdd newydd o weithio ac ar wneud mwy â llai, cynigiodd rhai pobl y gallai Chwaraeon Cymru wneud mwy i annog clybiau i rannu cyfleusterau, adnoddau a gwirfoddolwyr. Un enghraifft a gynigiwyd oedd rhaglen gyllido neu set o egwyddorion cyllido a fyddai'n ffafrio clybiau aml-gamp neu uno clybiau gan gynnig cyfleoedd chwaraeon ehangach mewn cymunedau lle na chynigir ond ychydig o gampau. Byddai hefyd yn helpu clybiau i fod yn fwy cynaliadwy.

6.15 Y dystiolaeth o blaid rhai rhaglenni buddsoddi oedd y testun gofid i rai pobl, yn enwedig y rheini fel 5x60 sy'n targedu plant a phobl ifanc. Ymddengys nad ydynt wedi cael yr effaith y gobeithiwyd amdano wrth eu cyflwyno. Nodwyd bod rhai rhaglenni wedi cael eu gwerthuso ond nad oedd y canlyniadau wedi'u cyhoeddi ac na chafodd y gwersi a ddysgwyd yn y gwerthusiadau hynny eu rhannu â phawb. Canmolwyd penderfyniad y tîm elfit i fuddsoddi yn Athrofa Chwaraeon Perfformio Cymru – grŵp o arbenigwyr academaidd Addysg Uwch mewn gwyddorau chwaraeon amrywiol ac mae rhai wedi awgrymu y gallai trefniant tebyg ar gyfer chwaraeon cymunedol fod yn ddefnyddiol.

Strategaeth Fasnacheiddio

6.16 Roedd y gwaith masnacheiddio a ddechreuwyd gan Chwaraeon Cymru ryw 12 mis yn ôl wedi ennyn diddordeb rhai partneriaid. Roeddent yn awyddus i wybod pa asedau sydd gan Chwaraeon Cymru oedd â gwerth masnachol a sut y gallai'r strategaeth ei helpu i gynhyrchu incwm masnachol. Rydym yn deall bod Chwaraeon Cymru wedi cytuno bod Cymdeithas Chwaraeon Cymru mewn sefyllfa well i arwain y gwaith o ddatblygu strategaeth ar gyfer y sector a'i fod wedi neilltuo peth arian iddi at y pwrs. Yr un pryd, penododd Chwaraeon Cymru reolwr prosiect i ystyried y cyfleoedd masnachol sydd ar gael i Chwaraeon Cymru ac i ddechrau'r broses o sefydlu is-gwmni fel cyfrwng i gynhyrchu incwm o weithgareddau masnachol a mentrau ac ymgyrchoedd.

Rhaglen Chwaraeon a Gweithgareddau Cymunedol

6.17 Codwyd y pwnc hwn mewn sawl cyfweiliad. Nid yw hynny'n syndod o gofio'i oblygiadau arwyddocaol i Chwaraeon Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill. A siarad yn gyffredinol, mynegwyd cefnogaeth i'r cysyniad o weithio mewn ffordd ranbarthol mewn cysylltiad â chwaraeon cymunedol ac roedd hi'n glir o'r hyn a glywsom fod awdurdodau lleol y Gogledd yn awyddus i roi'r achos busnes o blaid Chwaraeon y Gogledd ar waith, a hwythau wedi ailddatblygu'r egwyddorion a'r ffordd o weithio. Wedi dweud hynny, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod rhai problemau pwysig yn dal heb eu datrys a dyna pam y mae'r rhaglen ar stop ar hyn o bryd.

6.18 Cafwyd cydnabyddiaeth gan Chwaraeon Cymru mai un o'r risgiau oedd y gallai awdurdodau lleol golli incwm o'r grant y mae'n ei ddarparu ar gyfer swyddi datblygu. Mae'n gweithio i liniaru effaith negyddol. Y risg arall oedd na fyddai'r broses gaffael mor gystadleuol ag y byddai Chwaraeon Cymru wedi hoffi iddi fod felly mae'n bwysig profi'r farchnad cyn gynted ag y bo modd drwy wahodd datganiadau o ddiddordeb.

6.19 Roedd yn amlwg bod Chwaraeon Cymru wedi gwneud llawer iawn o waith i lunio achos busnes o blaid newid, a oedd yn seiliedig ar yr angen i wneud pethau'n wahanol, i greu model cynaliadwy, cydnerth ac effeithiol ar gyfer darparu chwaraeon cymunedol. Roedd rhai yn amlwg yn rhwystredig fod y rhaglen wedi dod i stop ond cafwyd cydnabyddiaeth hefyd fod angen mwy o waith ar y fframwaith canlyniadau er mwyn iddo adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a bod yn gyson â'r nodau llesiant.

6.20 I bob golwg, y prif bryderon ynghylch y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgareddau Cymunedol oedd:

- Y graddau yr ymgynghorwyd â'r sector a'r graddau y mae'n deall yr hyn sy'n cael ei gynnig/sut olwg fyddai ar y model.
- A yw'r goblygiadau ariannol llawn wedi'u hystyried, yn enwedig costau staff yn sgil newid y model ar gyfer darparu chwaraeon cymunedol.
- Pa fodolau eraill oedd wedi cael eu hystyried a pham mai'r model cyfredol yw'r un a ffefrir.
- Unig bwnc y trafodaethau yw buddsoddiad Chwaraeon Cymru mewn chwaraeon cymunedol a byddai'r modelau yn gryfach pe bai modd i bartneriaid ymrwymo mwy na grantiau a chydabod eu gwerth.
- Yr awgrym bod y model cyfredol ar gyfer darparu chwaraeon cymunedol i gyd yn ddrwg ac na chydabyddir bod yna enghreifftiau o arfer da na'r potensial am ffordd arall o weithio, fel partneriaeth Gwent.
- Y goblygiadau ynghylch pwy fydd yn cael defnyddio'r cyfleuster a/neu ei gostau, os nad awdurdod lleol neu bartneriaeth awdurdod lleol yw'r rhai a ffefrir ar gyfer ei gynnal.
- Y potensial i greu mwy o haenau o fiwrocratiaeth a lleihau lefel y buddsoddiad sy'n cyrraedd y man lle bo'i angen.
- Natur haearnaidd y canlyniadau.
- Gan mai ysgolion sy'n elwa fwyaf ar arian Chwaraeon Cymru, oni ddylai'r sector addysg fod yn rhan o'r broses ymgynghori ac ymgysylltu.

- A fyddai gan gorff heblaw awdurdod lleol y strwythurau i allu cynnal y swyddogaethau corfforol a 'swyddfa gefn' ar gyfer corff comisiynu.
- Pam mae proses gaffael yn cael ei hystyried os y gwir yw mai dim ond awdurdod lleol neu gywaith rhwng awdurdodau lleol yw'r unig opsiwn ymarferol.

Casgliadau

6.21 Er bod proses glir iawn i bob golwg yn ei lle ar gyfer cytuno ar gyllideb Chwaraeon Cymru a phennu ei blaenoriaethau, mae amseriad y Llythyr Cylch Gwaith yn allweddol o ran cydamseru gwahanol rannau. Er bod rhesymau digon dilys dros ddarparu cyllideb ar gyfer blwyddyn yn unig, nid yw'n rhoi cyfle i Chwaraeon Cymru fuddsoddi nag ariannu ar lefel strategol ar gyfer y tymor hir. Mae'n effeithio ar allu ei bartneriaid i gynllunio'n strategol neu i bennu canlyniadau yn lle allbynnau tymor byr.

6.22 Yn ystod yr adolygiad, clywodd y Panel fod fframwaith canlyniadau wrthi'n cael ei ddatblygu i greu cyswllt cliriach rhwng blaenoriaethau ac amcanion Chwaraeon Cymru a'r rheini o eiddo Llywodraeth Cymru. Rydym wedi clywed hefyd fod Chwaraeon Cymru yn gweithio gydag lechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu dangosyddion perfformiad sy'n cyd-fynd â chanllawiau gweithgarwch corfforol y Prif Swyddog Meddygol. Yr hyn rydym wedi'i weld hefyd yw nad yw'r metrigau a ddefnyddir gan Chwaraeon Cymru i fesur perfformiad eu partneriaid mor gadarn ag y gallent fod a byddai'n ddefnyddiol felly ystyried elw cymdeithasol buddsoddiad wrth sbarduno sectorau eraill i fuddsoddi.

6.23 Barnwyd bod y ffordd yr aeth Chwaraeon Cymru ati i gynnal y rhaglen GalwAmWeithredu yn un galonogol o newydd. Mae sylwadau partneriaid yn awgrymu y byddent yn croesawu meini prawf ariannu craidd a rhaglenni mwy hyblyg ynghyd â'r gallu i gael at gyfalaf a refeniw sy'n caniatáu iddynt gael bod yn greadigol ac arloesol.

6.24 Mae'r ffordd y caiff y rhaglenni eu gwerthuso yn bwnc sydd i bob golwg yn haeddu peth sylw ond rydym yn sylweddoli i hyn gael ei godi yn Llythyr Cylch Gwaith 2017-18. Mae'n ddiddorol gweld bod y tîm elît wedi creu grŵp ymchwil o academyddion addysg uwch i ddyfnhau dealltwriaeth y tîm o wyddorau chwaraeon a datblygiadau technoleg ac i gynnig atebion i broblemau o ran perfformiad a pharatoi athletwyr.

6.25 Mewn gwirionedd, yn ôl y dystiolaeth a ddarparwyd, efallai y bydd yn rhaid i awdurdod lleol neu gywaith rhwng awdurdodau lleol fod y lle a ffefrir i gynnal Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol, a hynny oherwydd y costau sydd ynghlwm wrth sefydlu cwmni newydd (Adnoddau Dynol, Cyllid etc) a thalu am y costau â model staffio newydd – gallai'r costau pontio fod yn fawr ac o bosibl, gallent lyncu cyfran fawr o'r grant a roddir gan Chwaraeon Cymru.

6.26 Ymddengys fod nifer o faterion y mae'n rhaid eu datrys cyn y gall y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgareddau Cymunedol fynd yn ei blaen i'r cam treialu neu 'fabwysiadu cynnar'. Yn ei hanfod, y gofid mwyaf yw a oes marchnad yn bod oherwydd y strwythur a'r costau cysylltiedig ac a oes modd ychwanegu gwerth ar lefel y gymuned. Er bod cefnogaeth o blaid y cysyniad o fodel rhanbarthol, yn ôl y

dystiolaeth sydd wedi dod i law, ceir rhagdybiaeth efallai mai'r unig strwythur ymarferol yw un sy'n efelychu rhai sectorau eraill fel y Gwasanaeth Ieuencid neu Gonsortia Addysg ac sy'n rhanbartholi timau chwaraeon cymunedol awdurdodau lleol.

Yr argymhellion

- i. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi Llythyr Cylch Gwaith blynyddol yn brydlon er mwyn caniatáu proses cynllunio cyllideb gydamserol.
- ii. Dylai Chwaraeon Cymru sicrhau bod ei Gynllun Busnes yn adlewyrchu cynnwys y Llythyr Cylch Gwaith a'i fod yn ei fesur ei hun ar ei sail, a dylid ei gyhoeddi a'i rannu â phartneriaid.
- iii. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys fframwaith canlyniadau a dangosyddion perfformiad yn y Llythyr Cylch Gwaith er mwyn rheoli perfformiad Chwaraeon Cymru mewn ffordd fwy ystyrlon yn unol â nodau llesiant integredig a'r rheini sy'n benodol i'r sector.
- iv. Dylai ddarparu cyllideb tymor hir i Chwaraeon Cymru allu cynllunio'i fuddsoddiadau a'i weithgareddau mewn ffordd strategol er mwyn iddo fedru cyflawni amcanion a chanlyniadau y cytunwyd arnynt.
- v. Dylai Chwaraeon Cymru ystyried defnyddio arfau mesur i asesu elw cymdeithasol ei fuddsoddiadau mewn partneriaid a rhaglenni.
- vi. Dylai Chwaraeon Cymru ystyried dull gweithredu mwy hyblyg sy'n defnyddio amrywiaeth o ffynonellau ariannu er mwyn annog creadigrwydd, arloesedd ac atebion sy'n ymwneud ag anghenion campau penodol neu leol.
- vii. Dylai Chwaraeon Cymru a Chymdeithas Chwaraeon Cymru gytuno ar bwy sydd i arwain y rhaglen fasnacheiddio ar gyfer CLIC.
- viii. Dylai Chwaraeon Cymru arfarnu rhaglenni mewn ffordd fwy tryloyw ac ystyried gwerth mewnbwn gan y Sector Addysg Uwch i lywio ei strategaeth ymchwil a gwerthuso.
- ix. Dylai Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru roi mwy o ystyriaeth i'r Rhaglen Chwaraeon a Gweithgareddau Cymunedol yng ngoleuni'r pryderon a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

7. Partneriaethau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Adrannau Llywodraeth Cymru a Chyrff Eraill

7.1 Cafwyd yr argraff fod perthynas dda rhwng swyddogion Chwaraeon Cymru a'r Adran Noddi. Teimlwyd bod profiad swyddogion yr Adran Noddi a dyfnder eu gwybodaeth am Chwaraeon Cymru a'r sector yn fuddiol o ran meithrin perthynas ag Adrannau eraill Llywodraeth Cymru a sectorau eraill. Er hynny, teimlwyd siom gan rai ynghylch y graddau y mae Chwaraeon Cymru wedi llwyddo i gynnig dadl gref ynghylch cyfraniad chwaraeon at Addysg ac Iechyd. Cafwyd awgrym bod diffyg tystiolaeth gadarn, yr iaith a ddefnyddiwyd mewn trafodaethau neu'r goruchelgais neu'r gorhyder wedi creu rhwystrau, o bosibl, i ddatblygu ffyrdd cydweithredol o weithio.

7.2 Roedd rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r berthynas ag ef, o ddiddordeb arbennig i rai. Roedd y sefydliad ei hun yn glir iawn am y gwahaniaeth rhyngddo a Chwaraeon Cymru ond roedd rhai partneriaid wedi drysu ynghylch pwy yn union oedd yn gyfrifol am weithgarwch corfforol.

Y Sector Chwaraeon

7.3 Roedd y partneriaid yn werthfawrogol o swyddogion Chwaraeon Cymru ar draws y sefydliad am eu hymrwymiad, eu cefnogaeth a'u hawydd i wneud gwahaniaeth. Roedd llawer ohonynt wedi gweithio i Chwaraeon Cymru am flynyddoedd lawer ac roedd eu rhwydweithiau'n gaffaeliad i'r sefydliad ac i'r sector cyfan.

7.4 Yng ngoleuni'r cyd-destun polisi a'r hinsawdd ariannol newydd, cydnabu Chwaraeon Cymru fod angen trafodaethau gweddnewidiol yn hytrach na rhai trafodiadol â phartneriaid. Roedd y berthynas yn gofyn bod pawb yn deall rolau, cyfrifoldebau, heriau a chyfleoedd ei gilydd yn well ac er bod hynny'n anodd, roedd angen hefyd daro'r cydbwysedd cywir rhwng y swyddogaeth ffrwyno a herio a rôl y cynghorwyr a'r ffynonellau arbenigedd. Oherwydd natur y rôl, awgrymwyd bod perygl y gallai rhai swyddogion fynd yn rhy agos neu ymserchu'n ormodol yn y gamp y maent yn gweithio ynddi.

7.5 Un bai a welwyd ar Chwaraeon Cymru oedd yr holl wybodaeth ychwanegol roeddynt yn gofyn i CLIC amdani nad oedd fawr o werth iddi ond bod angen llawer o adnoddau i'w chynhyrchu. I rai cyrff bach, nid yw'r gwaith yn gymesur â lefel y buddsoddiad y maent yn ei gael. Rhwystredigaeth i rai oedd y diffyg rhesymau busnes dros ddarparu'r wybodaeth, y diffyg arweiniad a'r diffyg tystiolaeth bod yr wybodaeth yn cael ei defnyddio. Er hynny, roedd yn berthynas a oedd wedi esblygu a chanmolwyd Chwaraeon Cymru am ei fuddsoddiad i helpu CLIC i wella'u llywodraethiant ac i ddenu pobl â sgiliau ac arbenigeddau amrywiol i'w byrddau ac i swyddi uwch-swyddogion. Gan fod gan CLIC bellach y lefel hon o broffesiynoldeb, roedd y berthynas yn llai tebyg i berthynas riant a phlentyn. Er hynny, nid oedd eto'n berthynas oedolyn ac oedolyn fel yr oedd CLIC am ei gweld; hynny yw, perthynas lle dangosir digon o ffydd ynddynt i gyrchu'u nodau heb i Chwaraeon Cymru orfod bod yn bresennol yn holl gyfarfodydd y bwrdd a fforymau eraill.

7.6 Un o gryfderau mawr Athrofa Chwaraeon Cymru oedd lefel y gefnogaeth y mae'n ei rhoi i gyfarwyddwyr perfformiad ac athletwyr a'i pherthynas glos â CLIC.

Mae Chwaraeon Cymru wedi cydnabod ei fod weithiau'n hawlio'r clod am lwyddiant athletwyr elfit ac y dylai fod wedi rhoi'r clod hwnnw i eraill neu ei rannu â nhw. Roedd yn ymwybodol y gallai hyn greu argraff ddrwg ac roedd yn mynd i'r afael â'r mater.

7.7 Roedd y berthynas â Chymdeithas Chwaraeon Cymru yn un arall yr oedd rhai partneriaid am weld mwy o eglurder yn ei chylch. Cafwyd enghreifftiau da lle gallai'r Gymdeithas ychwanegu gwerth a chynrychioli'r sector yn llwyddiannus, fel y gwaith a symbylwyd ganddi i ddatblygu strategaeth fasnacheiddio.

7.8 Yr argraff bennaf ar bartneriaid oedd bod Chwaraeon Cymru yn chwarae rhan bwysig iawn ond bod y rhan honno'n wahanol i'r un a fu ganddo. Roedd yn rôl a fyddai'n ychwanegu llawer iawn o werth ond a fyddai'n gofyn am newid ymddygiad; mwy o ffydd a chydabyddiaeth ac ymgais go iawn i ymgysylltu a chydweithredu, i gyd-drefnu ac i uno'r sector ac i fod yn llai ynysig yn y ffordd y mae'n gweithio. Un ffordd y mae Chwaraeon Cymru wedi dangos ei bod wedi newid ymddygiad yw ei waith ar gyfleusterau. Mae wedi cynhyrchu glasbrint i lywio buddsoddiadau a phenderfyniadau strategol, gan weithio gyda CLIC i gyd-fuddsoddi mewn caeau 3G a dylanwadu ar gynigion i ddatblygu cyfleusterau o dan raglenni amrywiol Llywodraeth Cymru fel Rhaglen Adeiladu Ysgolion yr 21ain Ganrif. Enghraifft dda arall o ymgysylltu cynnar â CLIC yw'r ffordd y datblygir y 'Model Pedwar Byd'.

7.9 Roedd yr Awdurdodau Lleol yn gwerthfawrogi'u perthynas â Chwaraeon Cymru ond teimlent eu bod yn ymbellhau fwyfwy oddi wrth benderfyniadau ynghylch y rhaglenni yr oedd disgwyl iddynt eu cynnal. Mynegwyd y farn bod Chwaraeon Cymru yn tueddu i ddweud yn amlach na gwrando a'i fod yn llai tebygol y dyddiau hyn o roi arweiniad ar faterion strategol; materion fel y mesur atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer nofio a ddatblygwyd ar y cyd ag awdurdodau lleol. Cafwyd peth rhwystredigaeth ag amharodrwydd Chwaraeon Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu a safonau cenedlaethol. Dyma enghraifft arall lle gallai fod wedi ysgwyddo rôl arweinydd a chyd-drefnydd – dwy rôl sy'n brin yn y sector. Roedd cyngor eu swyddogion cyswllt i awdurdodau lleol gan fwyaf yn bositif ac adeiladol ond nid oedd gan y swyddogion fawr ddim awdurdod, os o gwbl, i wneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd rhanbarthol ac roedd y cyfathrebu ar brydiau'n anghyson â'r negeseuon yr oedd awdurdodau lleol neu bartneriaid eraill yn eu clywed. Yr argraff oedd bod Chwaraeon Cymru yn cael ei weld yn y cyfarfodydd hyn fel partner ariannu, i ffrwyno a herio yn hytrach nag i helpu a chefnogi ac nad oedd yn ychwanegu rhyw lawer at y trafodaethau.

7.10 Roedd y symudiad at strwythur rhanbarthol yn ardal Gwent a chytundeb Chwaraeon Cymru i drefniant adrodd a strwythurau cyllido gwahanol yn enghraifft dda o'r modd y dylai partneriaeth weithio. Cychwynnwyd Partneriaeth Gwent gan dîm Datblygu Chwaraeon Cyngor Sir Caerffili ryw bum mlynedd yn ôl yn sgil sgwrs â Chwaraeon Cymru am gael awdurdodau lleol i weithio'n fwy effeithiol a chydweithredol â'i gilydd. Un o'r prif sbardunau oedd lleihau lefel y fiwrocratiaeth a nifer y cyfarfodydd wrth sicrhau a monitro arian gan Chwaraeon Cymru.

7.11 Roedd Prif Swyddogion awdurdodau lleol Gwent bob amser wedi cydweithio ar lefel strategol ond oherwydd natur gystadleuol datblygu chwaraeon, nid oeddent bob amser yn canolbwyntio ar rannu arferion da na gwersi llwyddiant a methiant. Mae'r bartneriaeth wedi tyfu'n organig ond yr awdurdodau lleol sy'n rhan

o'r bartneriaeth sydd wedi'i sbarduno a nhw yw'r rheswm am ei llwyddiant. Nid rhywbeth a orfodwyd arnynt oedd y cydweithio hwn, ond rhywbeth a oedd yn seiliedig ar baroddrwydd go iawn i weithio gyda'i gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd.

7.12 Yr argraff a geid o berthynas Chwaraeon Cymru â'r sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yw nad oedd y gorau wedi'i chael ohoni ac nad oedd cydnabyddiaeth lawn wedi'i rhoi i'w chyfraniad at chwaraeon cymunedol ac elït yng Nghymru. Barnwyd y gallai'r sectorau chwarae rhan amlycach o ran ymchwil a gwerthuso i gryfhau'r dystiolaeth am effaith gymdeithasol ac economaidd chwaraeon. Roeddent yn eu gweld eu hunain hefyd fel cyfranwyr mawr at system adnabod a datblygu talent yng Nghymru, gan gefnogi athletwyr ar adegau gwahanol yn eu gyfa yn y campau ac wedi hynny.

7.13 Mae perthynas Chwaraeon Cymru â'r trydydd sector yn eithaf bach ond mae'n noddi Urdd Gobaith Cymru a StreetGames fel partneriaid cenedlaethol. Mae perthynas wedi'i meithrin dros y blynyddoedd diwethaf â Chomisiynydd y Gymraeg ac mae lle i wneud mwy i helpu â thargedau Llywodraeth Cymru i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer siaradwyr y Gymraeg mewn chwaraeon.

7.14 Mae'r Panel yn deall bod Chwaraeon Cymru wedi cynnal Arolygon Cyfranogiad Partneriaid yn y gorffennol ond nid ers 2013 ac nid oes fawr o dystiolaeth bod y Bwrdd wedi'u hystyried, wedi gweithredu arnynt na'u cyhoeddi gydag ymateb i'r canfyddiadau.

Casgliadau

7.15 Mae perthynas Chwaraeon Cymru â rhanddeiliaid a phartneriaid yn gymysg ond mae wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf. Yn ddi-os, mae angen iddo ymgysylltu'n gynt wrth ddatblygu mentrau newydd neu ffyrdd newydd o weithio a dangos ei fod yn gwrando ac yn ystyried barn a gofidiau yn y cyfnod ymgynghori hwnnw. Mae siom partneriaid ynghylch eu diffyg dylanwad ar lechyd ac Addysg yn ddealladwy o ystyried y sylw a'r ymdrech y maent yn eu rhoi i'r pynciau hyn ond mae'n annheg rhoi'r bai i gyd ar Chwaraeon Cymru. Mae unrhyw lwyddiant yn y dyfodol yn y maes hwn yn dibynnu ar ddiffinio rolau a chyfrifoldebau'n glir a chytuno ar amcanion integredig â phartneriaid mewn sectorau eraill. Mae hwn yn bwnc rydym wedi'i drafod eisoes yn yr adroddiad hwn.

7.16 Ystyrir bod y berthynas rhwng tîm elït Chwaraeon Cymru a'r CLIC yn un bositif a chydweithredol iawn ond mae Chwaraeon Cymru yn deall y gallai fod wedi creu'r argraff ei fod am gymryd gormod o'r clod am lwyddiant athletwyr elït. Mae wrthi'n ceisio dadwneud y drwg hwn.

7.17 Nodwyd y lefel o fiwrocratiaeth y mae CLIC ac awdurdodau lleol yn teimlo'u bod yn ei phrofi. Nodwyd hefyd yr awydd am berthynas aeddfetach, lle'r ymddiriedir ynddynt i gynllunio a chyflawni amcanion cytûn heb fod angen i Chwaraeon Cymru ddod i bob cyfarfod rhanbarthol, Bwrdd neu rwydwaith. Roedd awdurdodau lleol yn teimlo'n neilltuoel o rwystredig â diffyg cydnabyddiaeth Chwaraeon Cymru o'u cyfrifoldebau ehangach ac o'r arian mawr y maent yn ei fuddsoddi mewn creu cyfleoedd chwaraeon yn y gymuned, mewn rheoli a chynnal cyfleusterau ac mewn cefnogi clybiau, gwirfoddolwyr a CLIC. Clywsom dystiolaeth hefyd sy'n awgrymu bod

Chwaraeon Cymru weithiau'n defnyddio'i nawdd fel mecanwaith i reoli partneriaid a byddem yn awgrymu nad yw hynny'n ffordd ddefnyddiol o weithio.

7.18 Mae rôl amlwg i Chwaraeon Cymru o ran cyd-drefnu ac uno'r sector o gwmpas pynciau strategol pwysig. Ceir enghreifftiau llwyddiannus o hynny. Wedi dweud hynny, gallai Chwaraeon Cymru ystyried rhoi rôl ehangach yn y cyd-destun hwn i Gymdeithas Chwaraeon Cymru sydd newydd adnewyddu'i hymrwymiad i gynrychioli a chefnogi gwaith y CLIC ac mae eisoes wedi cydweithio â Chwaraeon Cymru ar waith masnacheiddio. Nodir fodd bynnag, y cyfyngir ar sgôp Cymdeithas Chwaraeon Cymru gan gapasiti ac adnoddau.

7.19 Gallai'r berthynas â'r sectorau Addysg Uwch ac Addysg Bellach fod yn well, yn enwedig o safbwynt ymchwil a gwerthuso, y llwybr meithrin talent a'r gwasanaethau i athletwyr elït. Mae rôl bosibl i'r sectorau hefyd o ran addysgu, hyfforddi a datblygu gweithlu a all helpu i gyflawni'r nodau llesiant drwy ddefnyddio sgiliau a ffyrdd o weithio gwahanol, a hynny gyda demograffeg wahanol. Yr her i'r sector yw sicrhau bod cynnwys a chymwysterau cyrsiau'n cael eu dylunio yn unol â'r angen.

7.20 Ymddengys fod yr Arolwg o Ganfyddiad Partneriaid yn erfyn defnyddiol iawn i Chwaraeon Cymru ar gyfer casglu'r math hwn o adborth, ond dim ond o'i gynnal yn annibynnol a'i weithredu mewn ffordd gwbl dryloyw.

Yr argymhellion

- i. Dylai Chwaraeon Cymru ystyried sut orau i reoli'i berthynas â'r CLIC ac awdurdodau lleol fel bod lefel y ffrwyno a'r herio'n gymesur ac yn gytbwys â rhoi cyngor arbenigol ac ychwanegu gwerth.
- ii. Wrth ddatblygu mentrau a ffyrdd newydd o weithio, dylai Chwaraeon Cymru ymgysylltu â phartneriaid o'r dechrau a defnyddio proses dryloyw lle rhoddir ystyriaeth i'w barn ac y rhoddir adborth iddynt.
- iii. Dylai Chwaraeon Cymru ystyried mabwysiadu perthynas ffurfiol ag Addysg Uwch ac Addysg Bellach i gasglu gwybodaeth, comisiynu ymchwil a thrafod meysydd cydweithio.
- iv. Dylai Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru ystyried rôl Cymdeithas Chwaraeon Cymru o ran cefnogi CLIC a pha ffyrdd sydd ar gael iddynt gael arian i gynnal eu gweithgareddau a'u hehangu lle bo angen cydnabyddedig.
- v. Dylai Chwaraeon Cymru gomisiynu arolwg annibynnol o'i bartneriaid a'i randdeiliaid er mwyn i'r Bwrdd gael ei ystyried. Dylid rhannu'r canfyddiadau â'r Adran Noddi fel rhan o'r broses rheoli perfformiad.

8. Ymddygiadau, Sgiliau, Arloesedd ac Arbenigedd

Ymddygiadau

8.1 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai Chwaraeon Cymru chwarae rhan fwy amlwg wrth gynnig arweinyddiaeth i'r sector yn gyffredinol. Roedd awydd i Chwaraeon Cymru gydweithio'n fwy ac i fod yn fwy atebol. Roedd partneriaid am weithio gyda Chwaraeon Cymru mewn ffordd gyfartal a chytbwys, lle'r oedd eu rôl yn cael ei gwerthfawrogi a'i defnyddio yn y ffordd orau bosibl. Yn lle hynny, roeddent weithiau yn teimlo eu bod yn cael eu trin fel pe na baent ar yr un lefel â Chwaraeon Cymru ac yn cael eu diystyru mewn trafodaethau. Wrth ddisgrifio ei ddulliau arwain, dywedodd rhai fod y sefydliad yn fwy parod i ddweud yn hytrach na gwranddo.

8.2 Yn ôl canfyddiadau'r partneriaid, er bod Chwaraeon Cymru wedi ymgynghori â nhw ar faterion amrywiol, nid oeddent yn gweld unrhyw dystiolaeth o newid yn sgil yr ymgynghori hwnnw nac wedi cael unrhyw adborth ar sut yr oedd eu cyfraniad wedi effeithio ar y canlyniad terfynol. Roedd hynny wedi arwain at sefyllfa lle'r oeddent wedi dod i'r casgliad bod Chwaraeon Cymru wedi penderfynu eisoes ar y canlyniad terfynol a'i fod yn defnyddio'r ymgynghoriad fel rhan o broses yn hytrach nag fel ymarfer ystyrlon i ganfod safbwyntiau gwahanol.

Sgiliau

8.3 Wrth gyfwrdd â phartneriaid, mynegodd y rhan fwyaf ohonynt nad oedd sgiliau'r staff o fewn y sefydliad yn cyd-fynd â'r newidiadau a oedd yn digwydd y tu allan i'r sefydliad nac ychwaith ag anghenion y sector. Un o lwyddiannau mwyaf nodedig Chwaraeon Cymru yw'r ffordd y mae wedi helpu CLIC i ddod yn fusnesau mwy llwyddiannus gan sicrhau mwy o arbenigedd ar lefel bwrdd ac ar lefel weithredol, sy'n golygu bod angen llai o gyfarwyddyd ac arweiniad arnynt.

8.4 Yn gyffredinol, teimlai'r partneriaid nad oedd lefel a phrofiad swyddogion Chwaraeon Cymru yn cyd-fynd â lefel a phrofiad swyddogion y sefydliadau partner yr oeddent yn cysylltu â nhw. Mae swyddogion Chwaraeon Cymru wedi bod yn gyfrifol am herio cydweithwyr profiadol ar raddfeydd uwch mewn sefydliadau partner heb fod ganddynt o reidrwydd yr wybodaeth na'r arbenigedd i'w cynghori ar gamau gweithredu neu'r awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniadau. Mae hyn yn wendid yn fframwaith rheoli perfformiad a datblygu sgiliau'r sefydliad.

8.5 Clywodd y Panel dystiolaeth am y ffaith nad yw sgiliau technegol na chymwyseddau staff yn cyd-fynd â'r Cynllun Busnes. Er bod system effeithiol yn ei lle ar gyfer gwerthuso staff, nid yw perfformiad gwael yn cael ei reoli'n briodol bob amser ac nid yw sgiliau staff y sefydliad yn cael eu datblygu cystal â sgiliau partneriaid. Fodd bynnag, mae Rhaglen y Sefydliad Rheolaeth Siartredig wedi arwain at sawl canlyniad da ac mae'r sefydliad bellach yn hoelio sylw ar ddysgu. Ystyriwyd bod sgiliau arwain a rheoli newid yn wendidau yn y sefydliad a'r 3 prif ddiffyg o ran sgiliau a grybwyllwyd oedd ym maes rheoli perfformiad, gwasanaeth i gwsmeriaid a strategaeth.

8.6 Roedd Matrics Sgiliau ar gyfer staff ar raddfeydd uwch a oedd yn edrych ar y sgiliau a'r ymddygiadau a oedd yn ofynnol ar gyfer rolau ac i ba raddau yr oedd y sgiliau a'r ymddygiadau hynny ar gael yn y sefydliad. Defnyddiwyd adnodd allanol i

gynnal yr asesiad ac er bod Tîm yr Uwch-reolwyr wedi cael cyfle i adolygu'r canlyniadau, nid ydynt wedi'u rhannu gyda'r Bwrdd hyd yn hyn.

8.7 Gwendid arall o fewn y sefydliad oedd ei drosiant cymharol isel o staff a oedd, ym marn rhai o'r partneriaid, yn rhwystr i ddatblygu syniadau newydd, arloesedd a chreadigrwydd, ac yn ei gwneud yn anodd cynllunio ar gyfer olyniaeth ac i ddatblygu doniau. Mae ychydig o waith eisoes wedi'i wneud i ddiogelu sgiliau'r staff sy'n gweithio yn y tîm chwaraeon cymunedol ar gyfer y dyfodol. Nid y sgiliau yr oedd angen i staff feddu arnynt yn y gorffennol yw'r sgiliau sydd eu hangen bellach ar y sefydliad a'r rhwydwaith o bartneriaid. Mae angen i'r rôl ychwanegu gwerth ac ymwneud â rheoli perthnasau, rhannu arferion gorau, arloesedd, ymyriadau cymunedol, trafod â chymunedau a sgiliau busnes, yn hytrach na chanolbwyntio'n ormodol ar ddatblygu chwaraeon. Mae'r rolau presennol yn rhy amrywiol a braidd yn amhosibl eu cyflawni – er enghraifft, y gallu i wahanu rôl cydymffurfio oddi wrth rôl meithrin perthnasau. Roedd gan y tîm elît y cyfuniad cywir o sgiliau.

Arloesedd

8.8 Roedd awydd o fewn Chwaraeon Cymru i weithio mewn ffordd fwy arloesol ac roedd wedi cyflwyno GalwAmWeithredu, y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgareddau Cymunedol, y Fframwaith Llywodraethu ac Arwain, a Model y Pedwar Byd. Ystyriwyd hefyd fod sefydlu Grŵp Cynghori Chwaraeon Cymru wedi bod yn feiddgar ac yn gam ymlaen ond teimlwyd ei fod yn colli gafael ar bethau oherwydd nad oedd ei syniadau yn cael eu derbyn.

8.9 Prin oedd y dystiolaeth o greadigrwydd o fewn Chwaraeon Cymru ac nid oedd fawr o dystiolaeth ychwaith ei fod yn rhywbeth yr oedd yr uwch-reolwyr yn hoelio sylw arno. Nododd y CLIC nad oes llawer o wybodaeth nac enghreifftiau o arloesedd nad ydynt eisoes yn ymwybodol ohonynt yn dod i law.

Arbenigedd

8.10 Roedd y graddau yr oedd Chwaraeon Cymru yn defnyddio cwmnïau allanol i reoli rhaglenni a phrosiectau yn ogystal â'r duedd i recriwtio ymgynghorwyr i ddatblygu achosion busnes neu i adolygu prosesau yn amlwg iawn i bartneriaid a rhanddeiliaid. Mynegodd sawl un yn ystod y cyfweiliad ei bryder ynghylch nifer a chost y contractau hyn, gan ofyn a oedd y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o'u gwerth drwy gynnig cyfleoedd i staff gysgodi'r ymgynghorwyr allanol er mwyn dysgu oddi wrthynt.

8.11 Hoffai CLIC weld Chwaraeon Cymru yn meithrin arbenigedd yn fewnol o ran datblygu busnes a chael ychydig o brofiad o lywodraethu er mwyn deall blaenoriaethau adrannau amrywiol a sut i gydweithio â nhw yn effeithiol. Byddent hefyd yn falch o gael ychydig o help i ddadansoddi data ac effaith, a ffordd o rannu'r hyn a gaiff ei ddysgu ar draws pob maes chwaraeon. Awgrymwyd y gallai'r sector Addysg Uwch chwarae rôl yn hynny o beth ond dylai Chwaraeon Cymru gydlynu a chomisiynu'r ymchwil a'r gwaith casglu tystiolaeth.

8.12 Mae gan Fwrdd Chwaraeon Cymru eisoes amrywiaeth eang o arbenigedd a chredwyd y dylai'r aelodau adlewyrchu'r sector y maent yn ei gynrychioli. Awgrymwyd y dylid penodi yn y dyfodol ar sail matrices sgiliau er mwyn llenwi unrhyw fylchau ac i sicrhau bod y Bwrdd yn gallu herio Tîm yr Uwch-reolwyr ar lefel uchel ar

draws eu holl feysydd busnes, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliad. Pan fo angen penodi Cadeirydd, awgrymwyd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y rôl y mae'r penodiad hwnnw yn ei chwarae ar Fwrdd Chwaraeon y DU a'r sgiliau ychwanegol sy'n ofynnol i allu cynrychioli Chwaraeon y DU yn ddigonol.

Casgliadau

8.13 Ar adeg pan fo strwythurau traddodiadol a chyfarwydd yn newid a bod mwy a mwy o bwysau i gyflwyno tystiolaeth o effaith, gallai Chwaraeon Cymru gyflwyno achos cryf i'r Llywodraeth am gymorth ariannol ychwanegol a pharhaus a chydabyddiaeth o gyfraniad chwaraeon at gyflawni'n nodau llesiant.

8.14 Gallai Chwaraeon Cymru ychwanegu llawer mwy o werth at ei berthynas â phartneriaid drwy fod yn gyfaill beirniadol a thrwy herio mewn ffordd adeiladol, a rhoi cyngor a chymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn hytrach na dibynnu bron yn gyfan gwbl ar gyllid fel ei brif ddull o ddylanwadu. Dim ond pe bai'n gwrando, yn trafod ac yn gweithio mewn partneriaeth go iawn y byddai hynny'n gweithio.

8.15 Gyda mwy o chapasiti a chydweithio, ymddengys y gallai Tîm Gwybodaeth Chwaraeon Cymru, ychwanegu mwy o werth at y sefydliad, yn fewnol ac yn allanol drwy:

- Ddarparu ymchwil, tystiolaeth a chymorth gwerthuso yn uniongyrchol i gydweithwyr i lywio datblygiad rhaglenni a mentrau Chwaraeon Cymru.
- Helpu partneriaid i ddadansoddi data arolygon i ddeall effaith eu gweithgareddau yn lleol ac i rannu'r hyn a ddysgwyd ar draws y sector.
- Datblygu partneriaeth â'r sector Addysg Bellach ac Addysg Uwch i gomisiynu a rhannu canfyddiadau prosiectau ymchwil a chydlynu gwasanaeth ymchwil i lywio datblygiad polisïau.

8.16 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod Chwaraeon Cymru ar ei hôl hi o ran rheoli perfformiad a datblygu sgiliau, a'i fod yn dangos diffyg ymrwymiad o ran annog creadigrwydd o fewn y sefydliad a'r tu allan iddo. Er y gellir deall bod y sefydliad yn aros am ganlyniad yr adolygiad hwn cyn edrych ar ei strwythurau ac ar ganlyniadau'r archwiliad sgiliau, dylai weithredu'n syth ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi er mwyn adfer y sefyllfa a chreu amgylchedd lle y mae arloesi, dysgu a syniadau newydd yn cael eu hwyluso a'u dathlu. Dylid hefyd sicrhau bod unrhyw ymgynghorwyr allanol a gomisiynir yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol er mwyn sicrhau bod arbenigedd mewnol yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r contract.

Yr argymhellion

- i. Dylai Chwaraeon Cymru ddatblygu strategaeth gyfathrebu sy'n nodi egwyddorion arweiniol o ran sut y bydd yn ymgynghori â phartneriaid a rhanddeiliaid ac yn gwrando arnynt, sut y bydd yn rhannu gwybodaeth â nhw a sut y bydd yn rhoi adborth iddynt.
- ii. Dylid datblygu ffordd o dderbyn syniadau newydd, dealltwriaeth a gwybodaeth a gyflwynir o fewn y sefydliad a'r tu allan iddo.
- iii. Dylai Chwaraeon Cymru weithio gyda'r sector i hyrwyddo llwyddiannau partneriaid a'r hyn a gyflawnir ganddynt.

- iv. Dylai hyfforddi a dysgu staff mewnol fod yn rhan o'r contract pan ddefnyddir ymgynghorwyr allanol ar gyfer prosiectau arbennig.
- v. Dylid rhoi sylw hefyd i gynyddu capasiti Tîm Gwybodaeth Chwaraeon Cymru ac i sicrhau ei fod yn cydweithio mwy:
 - a. Darparu ymchwil, tystiolaeth a chymorth gwerthuso yn uniongyrchol i gydweithwyr i lywio datblygiad rhaglenni a mentrau Chwaraeon Cymru.
 - b. Helpu partneriaid i ddadansoddi data arolygon i ddeall effaith eu gweithgareddau yn lleol ac i rannu'r hyn a ddysgwyd ar draws y sector.
 - c. Datblygu partneriaeth â'r sector Addysg Bellach ac Addysg Uwch i gomisiynu a rhannu canfyddiadau prosiectau ymchwil a chydlynu gwasanaeth ymchwil i lywio datblygiad polisiau.
- vi. Dylai rheolwyr greu amgylchedd o fewn Chwaraeon Cymru lle y mae arloesedd a chreadigrwydd yn cael eu hyrwyddo a'u dathlu.
- vii. Dylid trafod canlyniadau'r matrices sgiliau staff a'r camau y bwriedir eu cymryd i lenwi unrhyw fylchau, a chytuno arnynt, cyn gynted â phosibl a dylid rhoi proses gadarn ar waith ar gyfer rheoli perfformiad.
- viii. Wrth benodi i'r Bwrdd yn y dyfodol, dylid ystyried y bylchau sy'n dod i'r amlwg ym matrices sgiliau'r aelodau presennol.
- ix. Dylai Chwaraeon Cymru ddatblygu strwythurau staffio sy'n ystyried sut orau i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng rheoli'r her o gydymffurfio a bod yn atebol i'r cyhoedd ar y naill law, a'r cyfraniad a wneir gan arbenigwyr ar y llaw arall.

9. Dysgu a Dealltwriaeth

9.1 Gwelwyd ambell enghraifft yng ngwaith Chwaraeon Cymru lle y defnyddiwyd yr hyn a ddysgwyd neu ddealltwriaeth a gafwyd o rywle arall wrth fynd ati i ddatblygu rhaglenni, mentrau neu gydsyniadau newydd. Yn ddiweddar, roedd y tîm Chwaraeon Elîf wedi ystyried y dull a ddefnyddir yn Nenmarc i ddatblygu systemau fel enghraifft bosibl o arfer da ac roedd y tîm Chwaraeon Cymunedol wedi edrych ar fodelau a ddefnyddir yn yr Alban, Lloegr a Seland Newydd yn ystod camau cyntaf y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgareddau Cymunedol. Ystyriwyd hefyd y dull a ddefnyddir yn Seland Newydd i sefydlu busnesau a'r dull o ddatblygu chwaraeon a ddefnyddir yn Llychlyn.

9.2 Prin oedd y dystiolaeth i awgrymu bod Chwaraeon Cymru wedi rhannu'r hyn a ddysgwyd a'r wybodaeth â phartneriaid. Yn wir, awgrymwyd bod gan Chwaraeon Cymru gyfoeth o ddata defnyddiol sy'n deillio nid yn unig o arolygon a phrosiectau ymchwil ond hefyd o'r hyn a ddysgwyd gan ei staff drwy weithio gyda phartneriaid gwahanol ac mewn sectorau gwahanol, a allai helpu partneriaid i ddysgu oddi wrth arferion da o fannau eraill. Hefyd, mae gan swyddogion profiadol mewn sefydliadau partner brofiad a gwybodaeth i'w rhannu â Chwaraeon Cymru a'r sector ond, i bob golwg, nid oes unrhyw dystiolaeth ei fod wedi ystyried manteisio ar y profiad hwnnw a'r wybodaeth honno er mwyn datblygu dealltwriaeth. Yn ôl partneriaid, roedd symud gwybodaeth o amgylch y sector er mwyn i'r sector fedru elwa ar arferion sydd wedi'u profi, ac ar lwyddiannau neu fethiannau cyrff eraill yn rhywbeth defnyddiol y gallai Chwaraeon Cymru ei wneud i ychwanegu gwerth.

Dealltwriaeth o'r Alban

9.3 Cyfrannodd SportScotland, sef y corff sy'n cyfateb i Chwaraeon Cymru yn yr Alban, at yr adolygiad hwn. Sylwodd y Panel ar y tebygrwydd rhwng y sefydliadau o ran yr agenda polisi sy'n llywio'u gwaith ond hefyd ar y gwahaniaethau rhwng eu rolau a'r berthynas rhyngddynt a phartneriaid.

9.4 Mae SportScotland mewn sefyllfa debyg i Chwaraeon Cymru o ran y cyfraniad y mae disgwyl iddo'i wneud at nodau iechyd cenedlaethol. Efallai fod SportScotland ar y blaen o ran datblygiad oherwydd bod ganddo set o fesurau y cytunwyd arnynt i ddisgrifio'r uchelgais ac i fesur cynnydd yn unol â nodau cenedlaethol. Mae'r 'Active Scotland Outcomes Framework' yn disgrifio'r canlyniadau chwaraeon a gweithgarwch corfforol i'w cyflawni dros gyfnod o 10 mlynedd ac a fydd yn cyfrannu at gyflawni 16 o Ganlyniadau Cenedlaethol. Un ohonynt yw bod yn iachach. Mae 55 o ddangosyddion cenedlaethol yn mesur y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni'r canlyniadau. Un o'r dangosyddion yw nodi a oes cynnydd yng nghyfran y boblogaeth sy'n cyrraedd y lefel o weithgarwch corfforol a argymhellir gan y Prif Swyddog Meddygol. Mae'r Fframwaith hwn yn fodel cyffredinol sy'n seiliedig ar system lle y mae pob partner yn rhannu nodau a chanlyniadau cyffredin ond bod ganddynt rolau a dangosyddion penodol o ran cynnydd.

9.5 Roedd perthynas SportScotland â'i bartneriaid yn seiliedig ar yr egwyddor o ychwanegu gwerth, arwain a hwyluso. Er ei fod yn cyfrannu 80% o'r cyllid y mae CLIC yn ei gael, cydnabu mai dim ond 10% o gyfanswm y buddsoddiad y mae cynghorau a phartneriaid eraill yn ei wneud a ddefnyddir i ariannu awdurdodau lleol i'w helpu i gynnig cyfleoedd i gymunedau gymryd rhan mewn chwaraeon a

gweithgareddau corfforol. Cafodd y canlyniadau yr oedd SportScotland yn eu disgwyl oddi wrth bartneriaid eu datblygu gan y partneriaid eu hunain ac roeddent wedi cytuno arnynt. Y partneriaid hefyd oedd yn gyfrifol amdanynt.

Casgliadau

9.6 Mae enghreifftiau i'w gweld yn Chwaraeon Cymru o ddysgu a chasglu gwybodaeth oddi wrth eraill er mwyn datblygu cysyniadau, rhaglenni a dulliau newydd, ac mae yno hefyd barodrwydd i wneud hynny. Ymddengys fod unigolion sy'n gyfrifol am faes gwaith newydd yn gwneud y penderfyniad i drafod syniadau newydd ac nad yw hynny'n rhan reolaidd o waith y Tîm Gwybodaeth. Yn ôl y Tîm, mae hyn yn rhywbeth yr hoffai ei wneud ar yr amod bod yr adnoddau ar gael i wneud hynny.

9.7 Wrth i'r adroddiad hwn gael ei ysgrifennu, mae'r Panel yn deall bod Grŵp Cyngori Chwaraeon Cymru, a sefydlwyd er mwyn meithrin dealltwriaeth, edrych ar dueddiadau ac ymchwilio iddynt, a chynnig arweiniad i Chwaraeon Cymru a'r Bwrdd, wedi'i ddi-ddymu hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad hwn. Ymddengys y byddai'r math hwn o grŵp, sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol ac uchel eu parch o'r sectorau masnachol, iechyd, addysg a chyfathrebu, yn un ffordd o sicrhau'r gwerth ychwanegol y mae partneriaid am ei weld.

9.8 Mae profiad SportScotland wrth iddo fynd ati i ddatblygu ffordd newydd o fesur ei effaith a'i rôl, a'r berthynas rhyngddo a phartneriaid, yn darparu ychydig o wybodaeth ddefnyddiol y gall Chwaraeon Cymru ei hystyried. Mae SportScotland yn wynebu heriau o hyd o ran ei bartneriaethau â sectorau eraill, megis Addysg ac Iechyd, ar lefel genedlaethol; yn enwedig yr ymrwymiad i fod yn gyfrifol ac yn atebol am ganlyniadau cyffredin. Fodd bynnag, mae'n gobeithio y bydd prosiect ar y cyd yn Glasgow i ddatblygu canlyniadau iechyd y bydd yr holl bartneriaid yn gyfrifol amdanynt ac yn adrodd yn unol â nhw, yn creu templed ar gyfer gweddill yr Alban. Gallai'r profiad hwnnw hefyd fod yn gyfle defnyddiol i ddysgu.

Yr argymhellion

- i. Dylai Chwaraeon Cymru ystyried sefydlu swyddogaeth ganolog ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth, arferion da, a'r hyn a ddysgwyd ar draws y sefydliad a chyda phartneriaid.
- ii. Dylid defnyddio a rhannu gwybodaeth a phrofiad y staff a'r holl bartneriaid pe byddai eraill yn gallu elwa ar yr hyn a ddysgwyd ac ar lwyddiannau. O hyn ymlaen, dylai Chwaraeon Cymru roi blaenoriaeth i hyn wrth ymgymryd â'i rôl ychwanegu gwerth.
- iii. Dylid ystyried a fyddai'n werth sefydlu grŵp gwyntyllu syniadau neu fwrdd cyngori annibynnol er mwyn gwella'r ffordd y mae'r sefydliad yn mynd ati i feithrin dealltwriaeth.
- iv. Dylid ystyried sefydlu plattform ar gyfer cyfnewid arferion da, arloesedd ac atebion creadigol gyda chynghorau chwaraeon a sefydliadau tebyg y tu allan i'r DU pan fo'r rolau a'r amcanion yn debyg.

10. CASGLIADAU

10.1 Ers iddo gael ei sefydlu o dan Siarter Frenhinol ym 1972, mae Chwaraeon Cymru wedi cyfrannu cryn dipyn at ddatblygiad a llwyddiant y sector chwaraeon yng Nghymru. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae allbynnau cenedlaethol yn dangos bod chwaraeon cymunedol a chwaraeon elît wedi parhau i wella a gall y sefydliad, a'i bartneriaid, fod yn falch o'r rhan y maen nhw wedi'i chwarae hyd yma wrth sicrhau'r llwyddiant hwnnw. Mae ymrwymiad ac awydd gweithlu Chwaraeon Cymru i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn amlwg a chânt eu gwerthfawrogi gan randdeiliaid allweddol a phartneriaid fel ei gilydd.

10.2 Yng nghyd-destun y llwyddiant hwn, nid yw ond yn iawn bod Chwaraeon Cymru yn mynd ati bellach mewn ffordd gadarnhaol i ystyried yr heriau sydd o'i flaen. Ar adeg pan fo mwy a mwy o ansicrwydd ariannol ac awydd ymhlith y cyhoedd inni wneud mwy gyda llai o adnoddau, a phan fo disgwyl i gyrff cyhoeddus gydweithio i wella llesiant pobl a chymunedau ledled Cymru, mae angen i Chwaraeon Cymru egluro ei rôl a'i ddiben, gan gytuno ar sut y gall sicrhau'r effaith fwyaf er budd pobl Cymru.

10.3 Mae'n bwysig cydnabod na all Chwaraeon Cymru gyflawni ei wir botensial heb gymorth a chydweithrediad ei bartneriaid. Rhaid derbyn cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y cyd ar draws y sector, gan gynnwys partneriaid cenedlaethol Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru. O weithio mewn ffordd gyffredin, bod yn gwbl glir o an diben, a gwerthfawrogi cryfderau a chyfyngiadau partneriaid, bydd modd gwneud cyfraniad aruthrol at iechyd a ffyniant y genedl.

10.4 Diben yr adroddiad hwn yw argymhell pam a sut y gallai Chwaraeon Cymru ymateb i'r heriau a fydd yn ei wynebu yn y dyfodol. Mae'r panel yn ddiolchgar am y gefnogaeth a gafodd oddi wrth Chwaraeon Cymru wrth iddo fynd ati i lunio'r adroddiad hwn ac mae'n gobeithio y bydd o gymorth i'r sefydliad, ac yn sylfaen iddo, wrth iddo gyfrannu at greu Cymru fwy iach, egnïol a llwyddiannus.

11. CYFYNGIADAU'R ADOLYGIAD

11.1 Er bod yr adolygiad wedi cyflawni'r diben a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl, roedd rhai cyfyngiadau nad oedd modd eu hosgoi. O fewn y cyfnod a ganiatawyd ar gyfer llunio'r adroddiad hwn, llwyddwyd i gasglu tystiolaeth oddi wrth amrywiaeth eang o bartïon â diddordeb, ond cawsom ein cyfyngu i sampl gymharol fach o gynrychiolwyr.

11.2 Drwy driongli data'r cyfweiliadau gyda'r ymchwil gychwynnol a oedd yn sail i'r adolygiad a ddechreuwyd gan gyn-gadeirydd Chwaraeon Cymru, lleihawyd y risg y byddai eraill yn gwrthod cydnabod neu'n gwrthod derbyn ein canfyddiadau.

11.3 Er ein bod wedi nodi sawl thema allweddol sy'n berthnasol i gwmpas ein hadolygiad, nid oeddem yn gallu darparu canfyddiadau pendant neu restr hirfaith o argymhellion ar gyfer pob un ohonynt oherwydd nad oedd y dystiolaeth mor gadarn ag yr oedd mewn meysydd eraill. Yn yr achosion hynny, dylid ystyried a oes angen edrych arnynt ymhellach. Mae'r themâu hyn, ynghyd ag eraill a ddaeth i'r amlwg ond nad oeddent, yn y pen draw, yn rhan o gwmpas y gwaith, wedi'u rhestru'n Feysydd Ymchwil neu Ymchwiliadau Pellach yn adran 12.

12. Meysydd Ymchwil ac Ymchwilio Pellach

12.1 Yn ystod yr adolygiad, daethom yn ymwybodol o faterion a oedd yn berthnasol i'r diben ond nad oeddent yn rhan o gwmpas y Cylch Gorchwyl. Rydym wedi defnyddio'r adran hon i restru'r materion hynny a'r hyn a wnaeth ein tystiolaeth ei ddatgelu amdanynt. Byddem yn awgrymu y dylent fod yn destun ymchwil neu ymchwiliad pellach.

Canolfannau Cenedlaethol Chwaraeon Cymru

12.2 Mae rôl a diben dwy ganolfan genedlaethol Chwaraeon Cymru yn gwestiwn y mae angen ei ystyried yng nghyd-destun eu dibenion elusennol, y newidiadau ym maes cyfleusterau ers iddynt gael eu hadeiladu, y cymhorthdal sydd ei angen i'w cynnal a'u cadw a datblygiad y sectorau Addysg Uwch ac Addysg Bellach fel darparwyr ymchwil a gwasanaethau ym maes chwaraeon elîit. O dro i dro, mae'r Llythyr Cylch Gwaith wedi cyfeirio at yr angen i gynnal adolygiad. Er bod y mater wedi'i ystyried ac er bod y bwrdd wedi craffu arno, mae eu dyfodol yn ansicr o hyd ac mae angen i Chwaraeon Cymru a'r Llywodraeth roi sylw i'r mater.

12.3 Er bod Chwaraeon Cymru wedi ceisio gwella sefyllfa ariannol **Plas Menai** yng Ngwynedd drwy arallgyfeirio i sectorau eraill, megis twristiaeth, mae diffyg sylweddol o hyd yn ei chyllid blynyddol. Dylid ystyried amrywiaeth o opsiynau ar gyfer rheoli'r cyfleuster yn y dyfodol. Wedi dweud hynny, rhaid cytuno yn gyntaf ar ei ddiben a'i swyddogaeth fel un o asedau Chwaraeon Cymru, gan wneud hynny yng nghyd-destun cyfeiriad strategol y sefydliad, a'r effaith a'r canlyniadau y mae disgwyl iddo'u cyflawni.

12.4 Roedd **Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru** yng Ngerddi Sophia yn cael ei hystyried yn ganolfan perfformiad a phrif safle Athrofa Chwaraeon Cymru. Roedd hefyd yn darparu swyddfeydd ar gyfer staff Chwaraeon Cymru a sawl Corff Llywodraethu Cenedlaethol. Roedd y ganolfan hefyd yn cynnig cyfleusterau chwaraeon dan do ac awyr agored i'r cyhoedd, gan weithredu'n effeithiol fel canolfan chwaraeon/hamdden. Eto, dylid ystyried diben a rôl y cyfleuster hwn yng nghyd-destun cyfeiriad strategol Chwaraeon Cymru, a'r effaith a'r canlyniadau y mae disgwyl iddo eu cyflawni. Pe bai'r sefydliad yn parhau i ddarparu gwasanaeth cymorth elîit i athletwyr, byddai angen buddsoddi ymhellach yn yr adeilad neu byddai angen creu partneriaeth â'r sector addysg neu'r sector masnachol.

Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden

12.5 Roedd y newidiadau ym maes cyfleusterau yn broblem ac yn bryder i sawl un a gyfrannodd at yr adolygiad hwn, ac awgrymodd rhai ohonynt y dylai Chwaraeon Cymru chwarae rôl fwy amlwg wrth argymell a darparu atebion. Gwyddwn fod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o gyfleusterau chwaraeon yng Nghymru a byddem yn awgrymu y dylai ystyried y sylwadau/awgrymiadau a ganlyn sy'n deillio o'n hadolygiad:

- (i) Nid yw'n gynaliadwy i glybiau chwaraeon sy'n agos at ei gilydd gael eu cyfleusterau eu hunain a dylid ceisio creu mannau hyblyg lle y gall clybiau rannu adnoddau.
- (ii) Mae Llywodraeth Cymru am weld mwy o gydweithio a ffyrdd mwy tryloyw o weithio, a dylai ei phartneriaid, gan gynnwys Chwaraeon

Cymru, fuddsoddi'n strategol mewn cyfleusterau ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol sy'n ateb y galw, sy'n ariannol hyfyw ac yn gynaliadwy, ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn y gymuned.

- (iii) Mae angen i'r adolygiad o gyfleusterau egluro a yw cynnal digwyddiad aml-gamp fel Gemau'r Gymanwlad yn uchelgais realistig.
- (iv) Nid oedd y cysylltiad rhwng chwaraeon a digwyddiadau mawr ym maes chwaraeon, a rôl y digwyddiadau hynny o ran hyrwyddo, annog a hwyluso cyfranogiad, yn glir. Mae angen sail resymegol fwy clir ar gyfer buddsoddi mewn cyfleusterau i gynnal digwyddiadau mawr.

Adolygu Chwaraeon Cymru o Dro i Dro

12.6 Nid oes adolygiad annibynnol o'r math hwn wedi'i gynnal ers dechrau'r mileniwm. Mae rhai o'r materion a godwyd bryd hynny, gan gynnwys diben a rôl y ddwy ganolfan genedlaethol, yn parhau hyd heddiw. Mae'r Panel o'r farn y dylid cynnal adolygiadau o dro i dro o swyddogaeth a ffurf Chwaraeon Cymru, fel sy'n digwydd mewn cwmnïau tebyg mewn gwledydd eraill ac mewn cyrff eraill a noddir neu sefydliadau hyd braich i'r Llywodraeth.

Atodiadau

Atodiad A

Thema	Argymhelliad
Polisi, Strategaeth, Diben a Rôl	1. Dylai Llywodraeth Cymru lunio datganiad polisi a strategaeth hirdymor ar gyfer gweithgarwch corfforol sy'n egluro priod rolau a chyfrifoldebau Gweinidogion, adrannau, asiantaethau, cyrff a noddir, ac eraill, o ran creu cenedl iach ac egnïol.
	2. Dylai'r datganiad polisi/strategaeth <ul style="list-style-type: none"> (a) nodi'n glir iawn y canlyniadau a'r cyllidebau cyffredin a'r dulliau cyffredin y dylid eu defnyddio i fesur perfformiad yr holl bartneriaid. (b) egluro diben Chwaraeon Cymru a'r rôl y mae disgwyl iddo ef a'r sector chwaraeon ei chwarae o ran cyflawni'r nodau a'r amcanion llesiant. (c) ddiffinio'n glir yr hyn y mae Chwaraeon Cymru yn gyfrifol amdano o fewn y sbectrwm gweithgarwch corfforol a'r hyn y bydd yn atebol amdano o ran yr amcanion llesiant. (ch) ailedrych ar ei datganiad polisi ar chwaraeon elït ar ôl i Chwaraeon Cymru gwblhau'r gwaith y mae'n ei wneud i esbonio pam mae llwyddiant o ran ennill medalau yn bwysig.
	3. Dylid ei gwneud yn ofynnol i'r sectorau Chwaraeon ac lechyd gydweithio'n effeithiol ar fuddsoddiad, ymchwil, marchnata a hyrwyddo er mwyn cael effaith gadarnhaol a chynaliadwy ar lefelau gweithgarwch corfforol y boblogaeth gyfan.
	4. Bod Chwaraeon Cymru yn arwain gwaith i ddatblygu strategaeth hirdymor newydd ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a fydd yn: <ul style="list-style-type: none"> (a) ymateb i'r cyfeiriad polisi ar gyfer chwaraeon a fydd yn cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru yng nghyd-destun ei hamcanion i greu Cymru iach ac egnïol; (b) seiliedig ar ymgynghori a thrafodaeth cynhwysol a thryloyw gyda'r sector chwaraeon (yn ei ystyr ehangach) a chyda sectorau a sefydliadau perthnasol eraill, gan ystyried cyfrifoldebau ehangach rhai o'r partneriaid cyflawni; (c) sicrhau bod chwaraeon cymunedol a'r 'llwybr' chwaraeon a pherfformiad yn cael eu darparu ar sail gweledigaeth glir sy'n gydnaws â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; (ch) cwmpasu chwaraeon elït yn ogystal â chwaraeon cymunedol/ar lawr ac yn rhoi diffiniad clir o lwyddiant a'i bwysigrwydd i'r agenda polisi ehangach; (d) yn cael ei chysylltu â strategaethau partneriaid os byddant yn berthnasol neu os bydd y canlyniadau a bennir ynddynt yn rhai cyffredin; (dd) cynnwys canlyniadau, metrigau a fframwaith perfformiad cadarn, a fydd yn amlinellu cyfrifoldebau'n glir, ac a fydd yn cynnwys proses fuddsoddi dryloyw; (e) yn cael ei hadolygu'n annibynnol o bryd i'w gilydd.

<p>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Dangosyddion Perfformiad</p>	<p>5. Dylai Chwaraeon Cymru gwblhau'r gwaith y mae wedi'i wneud ar y nodau llesiant a'u heffaith, a pharhau i'w rannu â'i bartneriaid.</p>
	<p>6. Dylai'r canlyniadau llesiant a'r ffyrdd o weithio ddod yn rhan ganolog o bob agwedd ar gyfrifoldebau a gweithgareddau Chwaraeon Cymru, gan gynnwys ei strategaeth/strategaethau a'i gynlluniau busnes a:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) wrth ddiffinio ei amcanion llesiant, dylai Chwaraeon Cymru nodi'r partneriaid sy'n hanfodol i'w waith, lle y gallent gael eu hintegreiddio i ddarparu canlyniadau ychwanegol a phwy sy'n atebol am y gwaith a wneir. (b) rhoi arweiniad i'r sector drwy hwyluso trafodaethau i benderfynu ble y dylai'r sector fuddsoddi a gweithio ynddo fwyaf a ble mae'r partneriaid mewn sectorau eraill y dylai fod yn cydweithio â nhw. (c) cymaint ag y medrir, ymgysylltu â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, i gyd-ddatblygu amcanion a mesur effaith lle bo gofyn.
	<p>7. Dylid datblygu arfau asesu i fesur effaith y sector ac elw cymdeithasol ei fuddsoddiad a dylent fod yn rhan o'r gwerthusiad o'r gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni'r amcanion llesiant y mae Chwaraeon Cymru wedi'u gosod ar ei gyfer ei hun.</p>
	<p>8. Dylai Chwaraeon Cymru chwilio am fecanwaith effeithlon ac effeithiol ar gyfer deall, rhannu a dylanwadu ar amcanion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r cyfleoedd i ymgysylltu â CLIC a phartneriaid eraill.</p>
<p>Blaenoriaethau Buddsoddi a Cynllunio</p>	<p>9. Dylai Llywodraeth Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) ddarparu cyllideb tymor hir i Chwaraeon Cymru allu cynllunio'i fuddsoddiadau a'i weithgareddau mewn ffordd strategol er mwyn iddo fedru cyflawni amcanion a chanlyniadau y cytunwyd arnynt. (b) gyhoeddi Llythyr Cylch Gwaith blynyddol yn brydlon er mwyn caniatáu proses cynllunio cyllideb gydamserol. (c) gynnwys fframwaith canlyniadau a dangosyddion perfformiad yn y Llythyr Cylch Gwaith er mwyn rheoli perfformiad Chwaraeon Cymru mewn ffordd fwy ystyrlon yn unol â nodau llesiant integredig a'r rheini sy'n benodol i'r sector.
	<p>10. Dylai Chwaraeon Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) sicrhau bod ei Gynllun Busnes yn adlewyrchu cynnwys y Llythyr Cylch Gwaith a'i fod yn ei fesur ei hun ar ei sail, a dylid ei gyhoeddi a'i rannu â phartneriaid. (b) ystyried dull gweithredu mwy hyblyg sy'n defnyddio amrywiaeth o ffynonellau ariannu er mwyn annog creadigrwydd, arloesedd ac atebion sy'n ymwneud ag anghenion campau penodol neu leol. (c) cytuno gyda Chymdeithas Chwaraeon Cymru pwy sydd i arwain y rhaglen fasnacheiddio ar gyfer CLIC. (ch) arfarnu rhaglenni mewn ffordd fwy tryloyw ac ystyried gwerth mewnbn gan y Sector Addysg Uwch i lywio ei strategaeth ymchwil gwerthuso.

ADOLYGIAD O CHWARAEON CYMRU – ADOLYGIAD ANNIBYNNOL

	11. Dylai Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru roi mwy o ystyriaeth i'r Rhaglen Chwaraeon a Gweithgareddau Cymunedol yng ngoleuni'r pryderon a nodwyd yn yr adroddiad hwn.
Partneriaethau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	12. Dylai Chwaraeon Cymru: <ul style="list-style-type: none"> (a) ystyried sut orau i reoli'i berthynas â'r CLIC ac awdurdodau lleol fel bod lefel y ffrwyno a herio'n gymesur ac yn gytbwys â rhoi cyngor arbenigol ac ychwanegu at werth. (b) ystyried mabwysiadu perthynas ffurfiol ag Addysg Uwch ac Addysg Bellach i gasglu gwybodaeth, comisiynu ymchwil a thrafod meysydd cydweithio. (c) gomisiynu arolwg annibynnol o'i bartneriaid a'i rhanddeiliaid i'r Bwrdd gael ei ystyried. Dylid rhannu'r canfyddiadau â'r Adran Noddi fel rhan o'r broses rheoli perfformiad.
	13. Wrth ddatblygu mentrau a ffyrdd newydd o weithio, dylai Chwaraeon Cymru ymgysylltu â phartneriaid o'r dechrau a defnyddio proses dryloyw lle rhoddir ystyriaeth i'w barn ac y rhoddir adborth iddynt.
	14. Dylai Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru ystyried rôl Cymdeithas Chwaraeon Cymru o ran cefnogi CLIC a pha ffyrdd sydd ar gael iddynt gael arian i gynnal eu gweithgareddau a'u hehangu lle bo angen cydnabyddedig.
	15. Dylai Chwaraeon Cymru: <ul style="list-style-type: none"> (a) ddatblygu strategaeth gyfathrebu sy'n nodi egwyddorion arweiniol o ran sut y bydd yn ymgynghori â phartneriaid a rhanddeiliaid ac yn gwrandao arnynt, sut y bydd yn rhannu gwybodaeth â nhw a sut y bydd yn rhoi adborth iddynt. (b) ddatblygu ffordd o dderbyn syniadau newydd, dealltwriaeth a gwybodaeth o fewn y sefydliad a'r tu allan iddo. (c) weithio gyda'r sector i hyrwyddo llwyddiannau partneriaid a'r hyn a gyflawnwyd ganddynt.
Ymddygiadau, Sgiliau, Arloesedd ac Arbenigedd	16. Dylai hyfforddi a datblygu staff mewnol fel rhan o'r contract pan ddefnyddir ymgynghorwyr allanol ar gyfer prosiectau arbennig.
	17. Dylid rhoi sylw i gynyddu capasiti Tîm Gwybodaeth Chwaraeon Cymru ac ar sicrhau ei fod yn cydweithio mwy i: <ul style="list-style-type: none"> (a) ddarparu ymchwil, tystiolaeth a chymorth gwerthuso yn uniongyrchol i gydweithwyr i lywio datblygiad rhaglenni a mentrau Chwaraeon Cymru. (b) helpu partneriaid i ddadansoddi data arolygon i ddeall effaith eu gweithgareddau yn lleol ac i rannu'r hyn a ddysgwyd ar draws y sector. (c) ddatblygu partneriaeth â'r sector Addysg Bellach ac Addysg Uwch i gomisiynu a rhannu canfyddiadau prosiectau ymchwil a chydlynu gwasanaeth ymchwil i lywio datblygiad polisïau.
	18. Dylai Chwaraeon Cymru: <ul style="list-style-type: none"> (a) ddatblygu strwythurau staffio sy'n ystyried sut orau i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng rheoli'r her o gydymffurfio a bod yn

ADOLYGIAD O CHWARAEON CYMRU – ADOLYGIAD ANNIBYNNOL

	<p>atebol i'r cyhoedd ar y naill law, a'r cyfraniad a wneir gan arbenigwyr ar y llaw arall.</p> <p>(b) trafod a chytuno ar ganlyniadau'r matrices sgiliau staff a'r camau gweithredu a gynigir i lenwi unrhyw fylchau, cyn gynted â phosibl a dylid gweithredu proses gadarn ar gyfer rheoli perfformiad.</p> <p>(c) ystyried unrhyw fylchau sy'n dod i'r amlwg ym matrices sgiliau'r aelodau presennol wrth benodi i'r Bwrdd yn y dyfodol.</p>
<p>Dysgu a Dealltwriaeth</p>	<p>19. Dylai Chwaraeon Cymru ystyried:</p> <p>(a) sefydlu swyddogaeth ganolog ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth, arferion da a'r hyn a ddysgwyd ar draws y sefydliad a chyda phartneriaid.</p> <p>(b) a fyddai'n werth sefydlu grŵp gwyntyllu syniadau neu fwrdd cynghori annibynnol er mwyn gwella'r ffordd y mae'r sefydliad yn mynd ati i feithrin dealltwriaeth.</p> <p>(c) sefydlu platfform ar gyfer cyfnewid arferion da, arloesedd ac atebion creadigol gyda chynghorau chwaraeon a sefydliadau tebyg y tu allan i'r DU pan fo rolau ac amcanion yn debyg.</p> <p>20. Dylid defnyddio a rhannu gwybodaeth a phrofiad y staff a'r holl bartneriaid pe byddai eraill yn gallu elwa ar yr hyn a ddysgwyd ac ar lwyddiannau. O hyn ymlaen, dylai rôl Chwaraeon Cymru roi blaenoriaeth i hyn wrth ymgymryd â'i rôl ychwanegu gwerth.</p>

Atodiad B**Cylch Gorchwyl yr Adolygiad****Cenedl Egnïol, Iach a Llwyddiannus****Y Cyd-destun**

Mae Chwaraeon Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac fe'i sefydlwyd o dan Siarter Frenhinol. Fel sefydliad cenedlaethol, mae'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a ffyrdd iach o fyw. Yn yr un modd â phob rhan o'r sector cyhoeddus, gofynnir iddo ehangu ei gyrhaeddiad o fewn cymunedau pan fo llai a llai o adnoddau ariannol ar gael. Bydd angen i gyrff fel Chwaraeon Cymru rannu canlyniadau ac adnoddau a mynd ati i gynllunio ar y cyd er mwyn chwarae eu rhan nhw yn yr agenda llesiant ehangach er budd pobl Cymru. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r sector chwaraeon ac arian cyhoeddus, mae'r Gweinidogion am ystyried a yw Chwaraeon Cymru yn mynd ati mewn ffordd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl i gyflawni'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn dymuno'u gweld.

Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn cael eu hamlinellu yn y rhaglen lywodraethu, 'Symud Cymru Ymlaen'. Ymhlith yr amcanion ar gyfer chwaraeon y mae gwella lefelau gweithgarwch corfforol dinasyddion Cymru, yn enwedig yn y grwpiau hynny lle mae lefelau gweithgarwch yn isel iawn ar hyn o bryd, cyfrannu at greu poblogaeth sy'n fwy iach yn gyffredinol, gwella canlyniadau o ran llesiant, a chreu ffyrdd i bawb fedru datblygu ym maes chwaraeon er mwyn cyrraedd lefel elfit. Bydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn elfen bwysig o strategaeth iach ac Egnïol Llywodraeth Cymru.

Diben yr Adolygiad

Edrych ar fwriad, diben a rôl strategol Chwaraeon Cymru mewn perthynas â chreu cenedl fwy egnïol, iach a llwyddiannus yng ngoleuni'r ffaith bod cyllidebau gwariant yn y sector cyhoeddus o dan bwysau cyffredinol.

Cwmpas y Gwaith

Dylai'r adolygiad adeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i wneud gan sicrhau bod y cyfeiriadau cywir yn yr adroddiad a bod sail i unrhyw dystiolaeth a ddarperir. Dylai'r Adolygiad edrych ar:

- Weledigaeth, dyheadau a bwriad strategol Chwaraeon Cymru ar hyn o bryd o ran cyflawni blaenoriaethau ac amcanion y Llywodraeth.
- Cryfderau a gwendidau presennol Chwaraeon Cymru, a'r cyfleoedd i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion y Llwyddiannus.
- Sut y gall cyflawni'r amcanion hyn gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Y canlyniadau llesiant y gallai Chwaraeon Cymru gael yr effaith fwyaf arnynt.
- Yr hyn y gellir ei ddysgu a'i ddirnad oddi wrth weledydd eraill ynglŷn â chreu cenedl fwy egnïol, iach a llwyddiannus.

ADOLYGIAD O CHWARAEON CYMRU – ADOLYGIAD ANNIBYNNOL

- Y meysydd y dylai Chwaraeon Cymru fod yn eu targedu neu lle y dylai fod yn dylanwadu ar fuddsoddiad er mwyn cael yr effaith fwyaf o ran cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
- Awydd a gallu Chwaraeon Cymru i weithredu mewn ffyrdd arloesol i gyflawni ei amcanion.

Cydnabyddir bod posibilrwydd na fydd yr ymchwil gychwynnol a wnaed fel rhan o Adolygiad y Cadeirydd ddarparu digon o dystiolaeth i fod yn sail i argymhellion cadarn ym mhob maes o fewn y cyfnod a ganiateir ar gyfer ysgrifennu'r adroddiad. Byddem yn croesawu awgrymiadau oddi wrth y Panel Annibynnol o ran y meysydd neu'r materion lle y gallai fod yn ddefnyddiol i Chwaraeon Cymru neu gyrff eraill wneud gwaith pellach, gan ddibynnu ar ba gorff bynnag fyddai'r un mwyaf addas i ymgymryd â'r gwaith.

Atebolrwydd a Gwneud Penderfyniadau

Bydd y panel yn paratoi adroddiad ar gyfer y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyn diwedd mis Ebrill 2017.

Atodiad C

Aelodau'r Panel

Aileen Richards – Aelod Annibynnol Anweithredol o'r Bwrdd, Undeb Rygbi Cymru

Helen Phillips – Cadeirydd, Gemau'r Gymanwlad Cymru a Gymnasteg Cymru

Jon Morgan – Cyfarwyddwr Gweithredol, Chwaraeon Anabledd Cymru ac Aelod Bwrdd Cymdeithas Chwaraeon Cymru a Gemau'r Gymanwlad Cymru

Andrew Thomas – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Aelod Bwrdd Chwaraeon Anabledd Cymru ac Aelod Grŵp Cynghori Chwaraeon Cymru

Cynorthwyodd aelod o Gangen Polisi Chwaraeon Llywodraeth Cymru y Panel gyda'r gwaith ymchwil a gweinyddol. Roedd pob aelod o'r Panel yn gweithredu'n annibynnol fel unigolion yn hytrach nag yn cynrychioli'r sefydliad sy'n ei gyflogi neu y mae'n ei wasanaethu fel aelod o'r Bwrdd.

Atodiad D

Rhestr o'r Rheini a Gafodd eu Cyfweld a Chyfranwyr

English Institute of Sport
Addysg Bellach
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Addysg Uwch
Awdurdodau Lleol
Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol Chwaraeon
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Sportscotland
Aelodau Bwrdd Chwaraeon Cymru
Cadeirydd Dros Dro ac Uwch Dîm Rheoli Chwaraeon Cymru
Adran Adnoddau Dynol Chwaraeon Cymru
Tîm Gwybodaeth Chwaraeon Cymru
UK Sport
Adran Addysg Llywodraeth Cymru
Adran Polisi Chwaraeon Llywodraeth Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Cymdeithas Chwaraeon Cymru
Yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuencid

Atodiad E

Dogfennau Cyfeirio Allweddol

Gweithredu Heddiw dros Yfory Egnïol. 2014. Grŵp Cynghori Chwaraeon Cymru.

Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru 2011. Chwaraeon Cymru.

Research to inform the Chair's Review of Sport Wales. 2016. Brightpurpose.

Chapter 5: Two Solitudes. Grass roots sport and high performance sport in Canada. From Elite Sport and Sport for all (golygydd gan Richard Bailey a Margaret Talbot). Awst 2015. Peter Donnelly a Bruce Kidd

Strategaeth Tlodi Plant 2012-2015. 2012. Chwaraeon Cymru.

Report on the Citizen-centred Governance Review of the Sports Council For Wales. 2010. Llywodraeth Cymru.

Dringo'n Uwch. Ionawr 2005. Llywodraeth Cymru.

Dringo'n Uwch: Y Camau Nesaf. Gorffennaf 2006. Llywodraeth Cymru.

Strategaeth Hyfforddi 2010 – 2026. 2010. Chwaraeon Cymru.

Strategaeth Chwaraeon Cymunedol 2012-2015. 2012. Chwaraeon Cymru.

Creu Cymru Egnïol. 2009. Llywodraeth Cymru.

Strategaeth Chwaraeon Elitaidd. 2010. Chwaraeon Cymru.

Strategaeth Chwaraeon Elitaidd. 2015. Chwaraeon Cymru.

Evaluation of the Impact of Phase 2 of Sport Wales' Calls4Action: First Interim Report. Hydref 2016. UK Research and Consultancy Services Ltd.

Cyfleusterau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: Glasbrint ar gyfer chwaraeon a hamdden egnïol yng Nghymru. Mawrth 2016

Hybu Cymru i Symud (Saesneg yn unig). Mawrth 2017. Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru.

Fframwaith Llywodraethu ac Arwain ar gyfer Cymru. Ebrill 2015. Chwaraeon Cymru.

Participation and Equality: An Evaluation of the Impact of Phase 1 of Sport Wales' Calls4Action. 2016. UK Research and Consultancy Services Ltd. Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Reaching Out: An Evaluation of the Process of Phase 2 of Sport Wales' Calls4Action. September 2016. UK Research and Consultancy Services Ltd.

Siarter Frenhinol. 1972. Buckingham Palace.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Chwaraeon Cymru 2016-17. 2017. Chwaraeon Cymru.

Sport North Wales Business Case. Medi 2016.

Chwaraeon Cymru Cynllun Busnes 2014-15. Chwaraeon Cymru.

Chwaraeon Cymru Cynllun Busnes 2015-16. Chwaraeon Cymru.

Sport Wales Community Sport Project – Final Report. Chwefror 2016. Deloitte LLP.

Sport Wales Framework for Embedding and Measuring Equality and Wellbeing 2016-2020 – Recommendations Taken from Sport Wales Equality Standard Report
Sport Wales Strategic Equality Plan 2016-2020. Chwaraeon Cymru.

Sport Wales Internal Audit Report. Mawrth 2017. Deloitte LLP

Cynllun Strategol Chwaraeon Cymru ar Gydraddoldeb. Mawrth 2015 – Ebrill 2016. Chwaraeon Cymru.

Llythyr Cylch Gwaith Chwaraeon Cymru 2014-15. Mawrth 2014. Llywodraeth Cymru.

Sport Wales Remit Letter 2014-15 In-Year Budget Adjustment. Awst 2014. Llywodraeth Cymru.

Llythyr Cylch Gwaith Chwaraeon Cymru 2014-15 Ychwanegiad. Rhagfyr 2014. Llywodraeth Cymru.

Llythyr Cylch Gwaith Chwaraeon Cymru 2015-16. Mawrth 2015. Llywodraeth Cymru.

Llythyr Cylch Gwaith Chwaraeon Cymru 2015-16 Ychwanegiad. Tachwedd 2015. Llywodraeth Cymru.

Llythyr Cylch Gwaith Chwaraeon Cymru 2016-17. Mawrth 2016. Llywodraeth Cymru.

Llythyr Cylch Gwaith Chwaraeon Cymru 2016-17 Ychwanegiad. Ionawr 2017. Llywodraeth Cymru.

Llythyr Cylch Gwaith Chwaraeon Cymru 2016-17 Ychwanegiad. Chwefror 2017. Llywodraeth Cymru.

Llythyr Cylch Gwaith Chwaraeon Cymru 2016-17 Ychwanegiad. Mawrth 2017. Llywodraeth Cymru.

Sport Wales Stakeholder Survey 2011. 2012. Beaufort Research

Sport Wales Stakeholder Survey 2013. 2013. Beaufort Research.

The Business Case for the Remodelling of Community Sport Delivery in Wales.
Mawrth 2014. Wharton Consulting.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Llywodraeth Cymru.

Cynllun Iaith Gymraeg 2017. 2017. Chwaraeon Cymru.